



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Addysg a Gwellu Iechyd
Cymru (AaGIC)
Health Education and
Improvement Wales (HEIW)

Ffocws ar Gyfrifiad 2021 at ddibenion Cynllunio'r Gweithlu

8 Medi 2023



Cynnwys

1.	Crynodeb Gweithredol.....	5
	Canfyddiadau allweddol y cyfrifiad o safbwynt cynllunio gweithlu GIG Cymru	5
	Canfyddiadau pellach	5
	Nodweddion y boblogaeth	6
	Nodweddion yr ardal.....	7
	Nodweddion gwaith	7
2.	Cyflwyniad	9
2.1.	<i>Pwrpas.....</i>	9
2.2.	<i>Cefndir.....</i>	9
2.3.	<i>Cwmpas.....</i>	9
2.4.	<i>Strwythur y Ddogfen</i>	9
2.5.	<i>Y Gynulleidfa Darged</i>	10
3.	Newidiadau yn y Boblogaeth ar sail Cyfrifiad 2021	11
3.1.	<i>Data Cyhoeddedig</i>	11
	Data'r cyfrifiad	11
	Amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r boblogaeth.....	11
	Dibynadwyedd y data am y boblogaeth.....	11
3.2.	<i>Cyfansymiau'r Boblogaeth</i>	12
3.3.	<i>Tuedd o ran y Boblogaeth.....</i>	12
3.4.	<i>Poblogaeth Fesul Ardal Ddaearyddol</i>	13
	Ardaloedd byrddau iechyd	13
	Ardaloedd awdurdod lleol	14
3.5.	<i>Poblogaeth Fesul Band Oedran.....</i>	16
	Band oedran fesul cyfnod bywyd/gwaith	16
	Oedrannau iau	18
	Oedrannau gweithio.....	19
	Oedrannau hŷn	20
3.6.	<i>Cymhareb Dibyniaeth.....</i>	21
3.7.	<i>Oedrannau Cyfartalog.....</i>	22
3.8.	<i>Proffiliau Oedran y Boblogaeth</i>	23
3.9.	<i>Rhaniaid y Boblogaeth o ran Rhyw.....</i>	25
4.	Newidiadau Hanesyddol a'r Dyfodol o ran Poblogaeth	28
4.1.	<i>Y 30 Mlynedd Diwethaf.....</i>	28
4.2.	<i>Y 30 Mlynedd Nesaf.....</i>	30
5.	Nodweddion y Boblogaeth ar sail Cyfrifiad 2021	33
5.1.	<i>Data am Nodweddion</i>	33
5.2.	<i>Nodweddion Cenedlaethol.....</i>	33
	Cenedligrwydd	33
	Ethnigrwydd	36

Prif iaith	38
Saesneg	39
Y Gymraeg	41
Ymfudiad	43
Symudiad	46
5.3. Nodweddion Personol	49
Addysg	49
Iechyd	50
Anabledd	52
Rhywedd	53
Cyfeiriadaeth rywiol	55
Crefydd	57
5.4. Nodweddion Ardal	59
Amddifadedd	59
Tai	62
5.5. Nodweddion Gwaith	64
Gweithgarwch Economaidd	64
Diwydiant	68
Galwedigaeth	69
Dosbarthiad Cymdeithasol Economaidd	72
Oriau Gwaith	75
Pellter Teithio i'r Gwaith	77
Dull o Deithio i'r Gwaith	79
6. Cymhariaeth â Gweithlu GIG Cymru	83
6.1. Cyfansymiau'r Gweithlu	83
6.2. Oedrannau'r Gweithlu	84
6.3. Nodweddion Eraill	86
7. Gwaith Ymchwil at y Dyfodol	88
8. Cyfeiriadau	89
Atodiad A Dibynadwyedd Ystadegau'r Boblogaeth	94
Atodiad B Dadansoddiad Ychwanegol	96
Y newidiadau mwyaf yn y boblogaeth	96
Proffiliau oedran y boblogaeth fesul ardal awdurdod lleol	99
Proffiliau'r boblogaeth o ran rhyw fesul ardal awdurdod lleol	101
Nodweddion y boblogaeth fesul ardal awdurdod lleol	103
<i>Cenedligrwydd</i>	103
<i>Ethnigrwydd</i>	104
<i>Prif iaith</i>	106
<i>Saesneg</i>	108
<i>Y Gymraeg</i>	109
<i>Ymfudiad</i>	111
<i>Symudiad</i>	113

<i>Addysg</i>	115
<i>Iechyd</i>	116
<i>Anabledd</i>	118
<i>Rhywedd</i>	119
<i>Cyfeiriadaeth rywiol</i>	121
<i>Crefydd</i>	123
<i>Amddifadedd</i>	124
<i>Tai</i>	126
<i>Gweithgarwch Economaidd</i>	128
<i>Diwydiant</i>	131
<i>Galwedigaeth</i>	132
<i>Dosbarthiad Cymdeithasol Economaidd</i>	136
<i>Oriau Gwaith</i>	137
<i>Pellter Teithio i'r Gwaith</i>	139
<i>Dull o Deithio i'r Gwaith</i>	140

1. Crynodeb Gweithredol

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cynnal cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr bob deng mlynedd. Cyflawnwyd cyfrifiad 2021 ar 21 Mawrth 2021, a chyflawnwyd y cyfrifiad blaenorol ar 27 Mawrth 2011.

Rhyddhawyd canlyniadau cychwynol cyfrifiad 2021 ar 28 Mehefin 2022, ac roeddent yn cynnwys data cyfyngedig, wedi ei grynhoi yn seiliedig ar fandiau oedran 5 mlynedd, rhyw ac ardaloedd awdurdod lleol. Cyhoeddwyd data pellach o hydref 2022 ymlaen, gan gynnwys data heb ei grynhoi yn seiliedig ar oedrannau unigol, a nifer o nodweddion o ran y boblogaeth.

Canfyddiadau allweddol y cyfrifiad o safbwynt cynllunio gweithlu GIG Cymru


- Mae gan Gymru boblogaeth o 3,107,489, a bu twf o 44,033 neu 1.4% ers cyfrifiad 2011 (o gymharu â 6.6% yn Lloegr).
- Mae poblogaeth Cymru'n heneiddio, gyda chynnydd o 17.7% yn nifer y bobl 65+ oed, a gostyngiad o 12.0% yn nifer y rhai 16-24 oed ac 1.5% yn llai o bobl o dan 16 oed.
- Mae oedran canolrifol y boblogaeth wedi cynyddu o 41 i 42 oed (o gymharu â 40 oed yn Lloegr).
- Mae'r gymhareb dibyniaeth (sy'n cymharu'r boblogaeth sy'n ddibynnol yn economaidd, rhwng 0-14 oed a 65+ oed, â'r boblogaeth 15-64 oed sy'n economaidd gynhyrchiol) wedi cynyddu o 54.6% yn 2011 i 60.9% yn 2021 (o gymharu â 55.8% yn Lloegr).
- Mae 35.1% o'r gweithlu 20-64 oed dros 50 oed.
- Tyfodd poblogaeth Cymru 1.4%, a thyfodd gweithlu GIG Cymru 23.4% yn ystod yr un cyfnod (Meddygol a Deintyddol i fyny 28.3%. Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd i fyny 15.0%). Er gwaethaf cynnydd sylweddol yng ngweithlu GIG Cymru, mae yna bryderon fod y galw'n uwch na'r cyflenwad, ac mae hynny'n debygol o waethygu wrth i boblogaeth sy'n heneiddio roi mwy o straen ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae 13.2% o'r boblogaeth sy'n gweithio'n gweithio oriau rhan-amser a 30.9% yn gweithio llawn-amser, er y gwelwyd gostyngiad bach yn y naill a'r llall (0.3% a 0.2% yn y drefn honno) ers 2011.
- Mae 35.8% o'r boblogaeth, 10.7% yn fwy na 2011, yn economaidd anweithgar (gan gynnwys myfyrwyr a'r rhai sy'n gofalu am berthnasau neu gartref, y rhai â salwch hirdymor neu'r rhai sy'n anabl neu wedi ymddeol).
- Mae 4.4% o boblogaeth Cymru'n gweithio mewn diwydiannau iechyd dynol, ond yn wyneb cefndir o anweithgarwch economaidd cynyddol a phoblogaeth sy'n heneiddio, bydd angen i sefydliadau ddatblygu cynlluniau gweithlu strategol hirdymor uchelgeisiol i recriwtio a datblygu'r talent sydd ei angen i dyfu'r gweithlu i ateb y galw cynyddol sydd yna ar draws yr holl wasanaethau.

Canfyddiadau pellach


Rhoddir crynodeb o benawdau pellach cyfrifiad 2021 isod:

- Mae'r tuedd rhwng y cyfrifiadau'n dangos cynnydd o 3.5% o 2011 i 2020, wedyn gostyngiad o 2.0% i 2021, sy'n rhoi cynnydd net o 1.4%. Fodd bynnag, caiff yr amcangyfrifon o'r boblogaeth rhwng y cyfrifiadau ei adolygu yn sgil cyfrifiad 2021, ac felly gellir addasu'r duedd rhwng y cyfrifiadau.

- Gwelwyd y twf mwyaf fesul ardal bwrdd iechyd, sef twf o 4.6%, yn BIP Caerdydd a'r Fro. Bu gostyngiad yn y boblogaeth mewn un ardal bwrdd iechyd yn unig, sef BIP Betsi Cadwaladr sef lleihad o gwta 0.2%.
- Yn nhermau ardaloedd awdurdod lleol, Casnewydd welodd y cynnydd mwyaf â 9.5%, a Cheredigion welodd y gostyngiad mwyaf â 5.8%.
- Mae'r map (de) yn dangos y newidiadau fesul ardal awdurdod lleol, gyda'r ardaloedd â chynnydd mewn pinc a'r rhai â gostyngiad mewn glas.



- Mae'r proffil oedran (de) yn dangos ymchwydd clir yn yr oedrannau hŷn.
- Mae'r boblogaeth yn ymrannu'n 48.9% gwrywaidd a 51.1% benywaidd, â'r bwlch wedi ehangu 0.3% ers 2011.
- Yn seiliedig ar boblogaeth hyd at 18 oed yng nghyfrifiad 2021, mae nifer y bobl 18 oed mewn blynyddoedd dilynol yn dangos cynnydd o 7.1% (+2,465) erbyn 2029, wedyn gostyngiad sydyn o 18.1% (-6,250) erbyn 2050.



- Ers 1991, mae poblogaeth Cymru wedi tyfu 8.1% (+234,089), gyda gostyngiad sylweddol yn y boblogaeth o dan 30 oed (gan gynnwys -12.5% yn y band 0-9 oed a -9.8% yn y band 20-29 oed) a chynnydd sylweddol yn y boblogaeth 50+ oed (gan gynnwys +41.7% yn y band 50-59 oed, +37.9% yn y band 70-79 oed, +45.8% yn y band 80-89 oed a +132.1% yn y band 90+ oed).
- Yn ystod y cyfnod hyd 2050, rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru'n cynyddu 8.0% pellach (+248,783) er y caiff hyn ei adolygu yn sgil cyfrifiad 2021. Cyn hynny, gallai'r twf yn y dyfodol fod yn agosach at 6% erbyn 2050, sy'n cynnwys gostyngiad pellach yn y boblogaeth o dan 30 oed (10.4-12.5%) a chynnydd pellach yn y boblogaeth hŷn (80.8% yn y grŵp 80-29 oed a 121.4% yn y band 90+ oed), er bod yna wastatau clir yn y boblogaeth 65+ oed o 2038 ymlaen.

Nodweddion y boblogaeth

- Yn nhermau nodweddion poblogaeth Cymru:
 - mae 95.8% yn Brydeinig, sy'n disgyn i 91.9% yn BIP Caerdydd a'r Fro.

- mae 93.8% yn wyn, sy'n disgyn i 83.3% yn BIP Caerdydd a'r Fro.
- mae'r Gymraeg neu Saesneg yn brif iaith/mamiaith i 93.9%, sy'n disgyn i 90.2% yn BIP Caerdydd a'r Fro.
- mae 17.3% yn medru'r Gymraeg, sy'n golygu bod yna 538,298 o siaradwyr Cymraeg o gymharu â gweledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau un filiwn o siaradwyr Cymraeg (sef 32.2% o'r boblogaeth gyfredol) erbyn 2050. Mae'r lefel yn uwch yng Ngwynedd (62.7%), Ynys Môn (54.3%), Ceredigion (44.3%) a Sir Gaerfyrddin (38.8%), ac ar ei hisaf ym Mlaenau Gwent (6.0%).
- Cafodd 93.1% eu geni yn y DU, sy'n disgyn i 86.3% yn BIP Caerdydd a'r Fro.
- Roedd gan 89.7% yr un cyfeiriad a'r flwyddyn flaenorol, sy'n disgyn i 84.5% yn BIP Caerdydd a'r Fro.
- Mae gan 26.0% gymwysterau lefel 4 (lefel gradd) sy'n cynyddu i 32.1% yn BIP Caerdydd a'r Fro.
- Mae gan 78.6% iechyd da, sy'n cynyddu i 81.6% yn BIP Caerdydd a'r Fro.
- Nid oes gan 78.4% anabledau neu anhwylderau iechyd sy'n cyfyngu arnynt, sy'n cynyddu i 81.0% yn BIP Caerdydd a'r Fro.
- Mae gan 93.3% yr un rhyw a briodolwyd iddynt adeg eu geni, sy'n disgyn i 92.7% yn BIA Powys.
- Mae 89.4% yn heterorywiol, sy'n disgyn i 87.9% yn BIP Caerdydd a'r Fro.
- Mae 46.5% yn ddigrefydd, sy'n cynyddu i 54.5% yn BIP Cwm Taf Morgannwg, a 43.6% yn Gristnogion, sy'n disgyn i 38.2% yn BIP Cwm Taf Morgannwg.

Nodweddion yr ardal

- Yn nhermau nodweddion yr ardal:
 - BIP Cwm Taf Morgannwg yw'r mwyaf difreintiedig (â mynegai o 87.4) a BIA Powys yw'r lleiaf difreintiedig (â mynegai o 71.2). Mae'r awdurdodau lleol yn amrywio o Sir Fynwy (66.4) i Flaenau Gwent (97.8).

Nodweddion gwaith

- Yn nhermau nodweddion gwaith:
 - mae 37.2% mewn cyflogaeth (ar ei uchaf â 39.0% yn BIP Aneurin Bevan)
 - mae 6.8% yn hunangyflogedig (ar ei uchaf â 12.7% yn BIA Powys)
 - mae 2.5% yn ddi-waith (ar ei uchaf â 3.1% yn BIP Caerdydd a'r Fro)
 - mae 35.8% yn economaidd anweithgar (ar ei uchaf â 38.2% yn BIP Hywel Dda).
 - O'r boblogaeth sy'n economaidd anweithgar:
 - mae 20.3% wedi ymddeol (ar ei uchaf â 24.9% yn BIA Powys)
 - mae 4.7% yn fyfyrwyr (ar ei uchaf ag 8.2% yn BIP Aneurin Bevan)
 - mae 3.5% yn gofalu am deulu/cartref (ar ei uchaf â 3.8% yn BIP Aneurin Bevan)
 - mae gan 4.9% salwch/anabledd hirdymor (ar ei uchaf â 6.1% yn BIP Cwm Taf Morgannwg).
 - Mae 4.4% o'r boblogaeth yn gweithio mewn diwydiannau iechyd dynol (ar ei uchaf â 5.0% yn BIP Caerdydd a'r Fro).

- Mae 2.7% o'r boblogaeth yn gweithio mewn swyddi iechyd a gofal (ar ei uchaf â 3.5% yn BIP Caerdydd a'r Fro).
- Mae gan 24.4% ddsbarthiad cymdeithasol economaidd lefel 1-6 am swyddi rheoli, gweinyddol a phroffesiynol (ar ei uchaf â 28.5% yng Nghaerdydd)
- Mae 13.2% yn gweithio rhan-amser (0-30 awr) a 30.9% yn gweithio llawn-amser (31+ awr).
- Mae 11.3% yn gweithio gartref, 16.0% yn teithio hyd at 10km i'r gwaith, mae 10.6% yn teithio ymhellach i'r gwaith a 6.1% yn gweithio oddi cartref.
- Mae 1.4% yn teithio i'r gwaith ar gludiant cyhoeddus, 27.1% yn defnyddio trafndiaeth breifat a 3.6% yn cerdded neu'n beicio.

Gyda llawer o nodweddion y boblogaeth, mae yna batrwm fod BIP Caerdydd a'r Fro (ac ardal awdurdod lleol Caerdydd oddi mewn i hynny) yn eithriad yn nhermau bod yna fwy o amrywiaeth, ond ni ddylai hynny fod yn syndod ar gyfer prifddinas. Mae rhai o'r nodweddion eraill yn dibynnu ar natur yr ardal, boed yn drefol neu'n wledig, a'r mathau o gyflogaeth, gwasanaethau trafndiaeth a thai sy'n gysylltiedig â gwahanol ardaloedd.

Dylid nodi y cyflawnwyd cyfrifiad 2021 yng nghanol y pandemig Covid 19 a ddechreuodd flwyddyn ynghynt. Arweiniodd y pandemig at gyfyngiadau mewn sawl agwedd ar fywyd arferol, gan gynnwys gwaith a'r gallu i deithio, am gyfnodau estynedig. Gallai hyn fod wedi effeithio ar rai o'r ymatebion i'r cyfrifiad, o gymryd ei fod yn cynnig ciplun o'r boblogaeth ar ddiwrnod penodol, waeth pa mor anarferol yw'r sefyllfa ar y pryd. Mae hyn yn debygol o fod wedi effeithio ar gwestiynau am waith a theithio yn arbennig, ond gallai fod wedi effeithio ar symudiad a mudiad pobl hefyd.

2. Cyflwyniad

2.1. Pwrpas

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu dadansoddiad o Gyfrifiad 2021 ac ystyried y goblygiadau o ran cynllunio'r gweithlu yn GIG Cymru.

Mae'r gweithlu fel arfer yn dod o'r boblogaeth leol, felly mae hi'n bwysig deall tueddiadau, nodweddion ac amrywiaeth y boblogaeth er mwyn helpu i recriwtio a chadw staff, a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

2.2. Cefndir

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS) yn cynnal cyfrifiad ar gyfer Cymru a Lloegr bob deng mlynedd. Cyflawnwyd cyfrifiad 2021 ar 21 Mawrth 2021 ac mae'n rhoi darlun o'r boblogaeth ar y diwrnod hwnnw. Cyflawnwyd y cyfrifiad blaenorol ar 27 Mawrth 2011.

2.3. Cwmpas

Am fod ein prif ddiddordeb yn yr effaith ar weithlu GIG Cymru, mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar ddata sy'n ymwneud â Chymru, er y cynhwysir cyfeiriadau at Loegr hefyd lle bo hynny'n berthnasol.

Wrth ystyried cyfrifiad 2021, mae'r adroddiad yn ystyried newidiadau ers cyfrifiad 2011, a thueddiadau tymor hwy ers 1991, ac amcanestyniadau o'r boblogaeth hyd at 2050. Rydyn ni'n ystyried nodweddion y boblogaeth yng nghyfrifiad 2021, ac yn cymharu'r boblogaeth â gweithlu GIG Cymru yn seiliedig ar ddata sydd ar gael yn hwylus.

2.4. Strwythur y Ddogfen

Mae Adran 1 yn rhoi crynodeb o'r adroddiad a'i ganfyddiadau.

Mae Adran 2 (yr adran hon) yn amlinellu pwrpas a strwythur yr adroddiad.

Mae Adran 3 yn darparu dadansoddiad o ddata cyfrifiad 2021 gan gynnwys y newidiadau yn y boblogaeth ers 2011.

Mae Adran 4 yn dangos y tueddiadau tymor hwy yn y boblogaeth ers 1991 ac amcanestyniadau at y dyfodol hyd at 2050.

Mae Adran 5 yn darparu dadansoddiad o nodweddion y boblogaeth o gyfrifiad 2021, gan gynnwys cenedligrwydd, addysg, iechyd a gweithgarwch economaidd.

Mae Adran 6 yn cysylltu'r data am y boblogaeth â gweithlu GIG Cymru.

Mae Adran 7 yn awgrymu posibilïadau ar gyfer gwaith ymchwil pellach.

Mae Adran 8 yn darparu rhestr o'r adroddiadau a'r ffynonellau data y cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.

Mae Atodiad A yn esbonio pa mor ddibynadwy yw'r data o ran tueddiadau yn y boblogaeth cyn gwneud addasiadau yn sgil cyfrifiad 2021.

Mae Atodiad B yn darparu dadansoddiad ychwanegol gan ddadansoddi'r wybodaeth yn fwy manwl lle bo hynny'n berthnasol.

2.5. Y Gynulleidfa Darged

Mae'r adroddiad hwn ar gyfer y bobl hynny sydd ynghlwm wrth gynllunio'r gweithlu ar gyfer GIG Cymru.

3. Newidiadau yn y Boblogaeth ar sail Cyfrifiad 2021

3.1. Data Cyhoeddedig

Data'r cyfrifiad

Cyhoeddodd yr ONS ganlyniadau cychwynnol cyfrifiad 2021 ar gyfer Cymru a Lloegr [1] ar 28 Mehefin 2022:

Roedd y wybodaeth gychwynnol yn cynnwys data ar sail y paramedrau canlynol, gyda'r ffigurau wedi eu crynhoi i'r 100 agosaf:

- bandiau oedran pum mlynedd
- rhyw
- awdurdod lleol.

Cynhyrchwyd adroddiad cychwynnol [2] i ddadansoddi'r data cyntaf a ryddhawyd.

O Hydref 2022 ymlaen, rhyddhaodd yr ONS mwy o ddata o lawer o gyfrifiad 2021, gan gynnwys cyfrifiadau'r boblogaeth heb eu crynhoi fesul oedrannau sengl, plws data am nodweddion fel addysg, ethnigrwydd, iechyd, amddifadedd, cenedligrwydd, iaith (gan gynnwys y Gymraeg) a gweithgareddau cyflogaeth.

Ar y cyfan, mae'r data'n seiliedig ar y canlynol:

- mae oedrannau'r seiliedig ar y pen-blwydd diwethaf cyn dyddiad y cyfrifiad, sef 21 Mawrth 2021
- mae'r ardaloedd daearyddol yn seiliedig ar y ffiniau oedd mewn grym ar 1 Ebrill 2022
- seilir y cyfansymiau ar y boblogaeth sy'n byw ym mhob ardal fel rheol
- gellir cyfnewid rhai ffigurau o ardaloedd lle mae'r cyfrifiadau'n isel er mwyn osgoi'r posibilrwydd o adnabod unigolion, a all olygu nad yw rhai o'r ffigurau manwl yn adio i greu'r cyfansymiau a ddarparwyd

Amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r boblogaeth

Cyflawnir cyfrifiad bob deng mlynedd, ac mae hyn yn rhoi darlun o'r sefyllfa ar ddiwrnod penodol. Rhwng cyfrifiadau, mae'r ONS yn cynhyrchu amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth sy'n treiglo cyfrifiadau'r cyfrifiad o'r boblogaeth i bob pwrpas yn seiliedig ar enedigaethau, marwolaethau a data perthnasol arall.

Yn yr un modd, mae'r ONS yn cynhyrchu amcanestyniadau o boblogaeth y dyfodol trwy ddefnyddio amcangyfrifon canol blwyddyn o'r boblogaeth fel sylfaen, wedyn asesu genedigaethau, marwolaethau ac ymfudiad dros amryw o gyfnodau yn y dyfodol. Defnyddir yr amcanestyniadau hyn yn helaeth at ddibenion cynllunio, er enghraifft ar gyfer iechyd, addysg a phensiynau.

Dibynadwyedd y data am y boblogaeth

Er bod cyfrifiad yn darparu mesuriad dibynadwy o'r boblogaeth ar bwynt penodol mewn amser, cyfrifir amcangyfrifon ac amcanestyniadau o'r boblogaeth trwy gymhwysu addasiadau (yn seiliedig ar amryw o ffynonellau data a thechnegau ystadegol) ar sail gwaelodlin. Mae hi'n naturiol disgwyl i gyfrifiadau sydd ymhellach o'r gwaelodlin (e.e. o'r cyfrifiad diwethaf) fod yn llai sicr na'r rhai sy'n agosach at y gwaelodlin.

Yn dilyn cyfrifiad newydd, sy'n darparu pwynt terfyn dibynadwy ar gyfer cyfnod o amser a gwaelodlin newydd ar gyfer y cyfnod nesaf, mae'r ONS yn addasu

amcangyfrifon ac amcanestyniadau er mwyn cymryd y gwaelodlin newydd i ystyriaeth. Proses arferol sy'n dilyn pob cyfrifiad yw hon, a gall olygu bod angen addasu'r amcangyfrifon o'r boblogaeth (tueddiad) rhwng cyfrifiadau.

Mae'r ONS wrthi ar hyn o bryd yn gwneud addasiadau i'r amcangyfrifon a'r amcanestyniadau o'r boblogaeth, ac er na fydd hyn yn effeithio ar y dadansoddiad o ddata'r cyfrifiad ei hun, mae'r union dueddiad rhwng cyfrifiadau ac amcanestyniadau'r dyfodol yn destun adolygiad.

Ceir esboniad llawnach o ba mor ddibynadwy yw data'r boblogaeth yn Atodiad A.

3.2. Cyfansymiau'r Boblogaeth

Rhoddir cyfansymiau poblogaeth Cymru o gyfrifiad 2021 o gymharu â chyfrifiad 2011 yn Nhabl 1 isod.

Tabl 1 – Newidiadau yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2021

Rhyw	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid	% Newid
Pawb	3,107,489	3,063,456	+44,033	+1.4%
Gwryw	1,521,000	1,504,228	+16,772	+1.1%
Benyw	1,586,489	1,559,228	+27,261	+1.7%


Ffynhonnell [3, 4]

Felly, dros y cyfnod o ddeng mlynedd, gwelwyd cynnydd cymharol fach o 1.4% ym mhoblogaeth Cymru. O gymharu, cynyddodd poblogaeth Lloegr 6.6% dros yr un cyfnod.

3.3. Tuedd o ran y Boblogaeth

Dangosir y tueddiadau yn y boblogaeth rhwng 2011 a 2021, yn seiliedig ar amcangyfrifon o'r boblogaeth yn ystod y cyfnod hwnnw, yn Ffigur 1 isod.

Ffigur 1 – Tuedd o ran y boblogaeth rhwng 2011 a 2021



Ffynhonnell [5, 3, 4]

Mae hyn yn dangos:

- cynnydd o 106,130 (+3.5%) yn y boblogaeth i 3,169,586 yn 2020
- lleihad o 62,097 (-2.0%) yn y boblogaeth rhwng 2020 a 2021.

Gallai hyn adlewyrchu cynnydd go iawn yn y boblogaeth dros naw mlynedd wedyn gostyngiad yn y degfed flwyddyn. Fodd bynnag, fel y mae Adran 3.1 uchod yn esbonio, mae amcangyfrifon o'r boblogaeth rhwng cyfrifiadau yn amodol ar addasiadau yn sgil cyfrifiad newydd, ac felly gallai'r gwir duedd newid wrth gyhoeddi amcangyfrifon diwygiedig o'r boblogaeth ar gyfer y cyfnod hwn (disgwylir i hyn ddiwydd yn haf 2023).

3.4. Poblogaeth Fesul Ardal Ddaearyddol

Ardaloedd byrddau iechyd

Dangosir poblogaeth Cymru fesul ardal bwrdd iechyd o gyfrifiad 2021 o gymharu â chyfrifiad 2011 yn Nhabl 2 isod.

Tabl 2 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid	% Newid
Pob ardal (Cymru)	3,107,489	3,063,456	+44,033	+1.4%
BIP Aneurin Bevan	587,655	576,754	+10,901	+1.9%
BIP Betsi Cadwaladr	686,893	687,937	-1,044	-0.2%
BIP Caerdydd a'r Fro	494,259	472,426	+21,833	+4.6%
BIP Cwm Taf Morgannwg	441,997	432,390	+9,607	+2.2%

Ardal	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid	% Newid
BIP Hywel Dda	382,731	382,138	+593	+0.2%
BIA Powys	133,174	132,976	+198	+0.1%
BIP Bae Abertawe	380,780	378,835	+1,945	+0.5%


Ffynhonnell [3, 4]

Mae gan y golofn newid canrannol god lliw yn berthynol i sero, lle dangosir cynnydd mewn pinc, gostyngiad mewn glas, gyda chryfder y lliw yn dynodi maint y newid.

Felly, mae'r cynnydd mwyaf yn BIP Caerdydd a'r Fro (+4.6%) ac mae'r unig ostyngiad yn BIP Betsi Cadwaladr (-0.2%).

Dangosir y newidiadau ar ffurf daearyddol yn Ffigur 2 isod.

Ffigur 2 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [3, 4]

Mae hyn yn dangos, o safbwynt bwrdd iechyd, fod y twf mwyaf ar draws de Cymru.

Ardaloedd awdurdod lleol

Wrth dorri ardaloedd y byrddau iechyd i lawr yn awdurdodau lleol, fe welwn ni fod yna amrywiadau sylweddol yn y newidiadau o fewn ardaloedd y byrddau iechyd, fel a welir yn Nhabl 3 isod.

Tabl 3 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul ardal awdurdod lleol

Ardal	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid	% Newid
Pob ardal (Cymru)	3,107,489	3,063,456	+44,033	+1.4%
Ynys Môn	68,877	69,751	-874	-1.3%
Gwynedd	117,393	121,874	-4,481	-3.7%
Conwy	114,741	115,228	-487	-0.4%
Sir Ddinbych	95,814	93,734	+2,080	+2.2%

Ardal	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid	% Newid
Sir y Fflint	154,956	152,506	+2,450	+1.6%
Wrecsam	135,112	134,844	+268	+0.2%
Powys	133,174	132,976	+198	+0.1%
Ceredigion	71,481	75,922	-4,441	-5.8%
Sir Benfro	123,354	122,439	+915	+0.7%
Sir Gaerfyrddin	187,896	183,777	+4,119	+2.2%
Abertawe	238,489	239,023	-534	-0.2%
Castell-nedd Port Talbot	142,291	139,812	+2,479	+1.8%
Pen-y-bont ar Ogwr	145,500	139,178	+6,322	+4.5%
Bro Morgannwg	131,947	126,336	+5,611	+4.4%
Caerdydd	362,312	346,090	+16,222	+4.7%
Rhondda Cynon Taf	237,658	234,410	+3,248	+1.4%
Merthyr Tydfil	58,839	58,802	+37	+0.1%
Caerffili	175,948	178,806	-2,858	-1.6%
Blaenau Gwent	66,899	69,814	-2,915	-4.2%
Torfaen	92,263	91,075	+1,188	+1.3%
Sir Fynwy	92,958	91,323	+1,635	+1.8%
Casnewydd	159,587	145,736	+13,851	+9.5%


Ffynhonnell [3, 4]

Mae gan y golofn newid canrannol god lliw yn bethynol â sero, sy'n dangos cynnydd mewn pinc, gostyngiad mewn glas, gyda chryfder y lliw yn dynodi maint y newid.

Yr ardal awdurdod lleol â'r cynnydd mwyaf oedd Casnewydd (+9.5%) a gwelwyd y gostyngiad mwyaf yng Ngheredigion (-5.8%). Rhoddir dadansoddiad o'r newidiadau hyn yn y boblogaeth yn fesul band oedran yn Atodiad B.

Rhoddir darlun daearyddol o'r newidiadau hyn yn Ffigur 3 isod.

Ffigur 3 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [3, 4]

Mae hyn yn dangos bod y prif ardaloedd o dwf ar draws de Cymru, a'r gostyngiadau mwyaf arwyddocaol yn y boblogaeth yng ngorllewin Cymru.

3.5. Poblogaeth Fesul Band Oedran

Mae data'r cyfrifiad ar gael fesul un flwyddyn oedran, felly mae hi'n bosibl grwpio'r data i'w ddadansoddi fesul bandiau oedran amrywiol, fel bandiau 5 mlynedd, 10 mlynedd neu oedran gwaith.

Band oedran fesul cyfnod bywyd/gwaith

Rhoddir y newidiadau fesul bandiau oedran sy'n cyfateb â gwahanol gyfnodau bywyd/gwaith o gyfrifiad 2011 i gyfrifiad 2021 yn Nhabl 4 isod.


Tabl 4 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran

Cyfwng oedran	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid	% Newid
Pob oedran	3,107,489	3,063,456	+44,033	+1.4%
Dan 16	548,102	556,296	-8,194	-1.5%
Gwaith 16-24	329,090	373,876	-44,786	-12.0%
Gwaith 25-39	568,890	543,467	+25,423	+4.7%
Gwaith 40-54	577,112	635,465	-58,353	-9.2%
Gwaith 55-64	422,267	391,808	+30,459	+7.8%
Oedran 65+	662,028	562,544	+99,484	+17.7%

Ffynhonnell [3, 4]


Dangosir y newidiadau yn Ffigur 4, sy'n dangos y newidiadau yn niferoedd y boblogaeth fesul band oedran a rhyw, ac yn Ffigur 5, sy'n dangos y newidiadau canrannol cyfatebol.

Ffigur 4 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran



Ffynhonnell [3, 4]

Ffigur 5 – Newidiadau canrannol yn y boblogaeth fesul band oedran



Ffynhonnell [3, 4]

Felly, y newid mwyaf yn nhermau absoliwt a chymharol yw'r twf yn y boblogaeth 65+ oed. Mae yna gwmp sylweddol yn y bandiau 16-24 a 40-54 oed.

Nawr byddwn ni'n ystyried y gwahanol gyfnodau bywyd yn fwy manwl.

Oedrannau iau

Mae'r boblogaeth o dan 16 oed yn cynnwys plant a phobl ifanc cyn iddynt ddechrau eu gyrfaedd gwaith.


Nodir y newidiadau yn y bandiau oedran iau rhwng cyfrifiad 2011 a chyfrifiad 2021, yn Nhabl 5 a Ffigur 6 isod.

Tabl 5 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran iau

Cyfwng oedran	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid	% Newid
Oedran 0-4	155,081	178,301	-23,220	-13.0%
Oedran 5-9	175,937	163,079	+12,858	+7.9%
Oedran 10-15	217,084	214,916	+2,168	+1.0%

Ffynhonnell [3, 4]

Ffigur 6 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran iau



Ffynhonnell [3, 4]


Mae hyn yn dangos darlun cymysg ar draws y bandiau oedran iau, gyda gostyngiad sylweddol yn y band 0-4 oed (-13.0%), cynnydd wedyn sefydlogi yn y band 5-9 oed, a gostyngiad wedyn cynnydd yn y band 10-15 oed.

Drwyddi draw, gwelwyd gostyngiad o 1.5% yn yr oedrannau iau (dan 16 oed).

Er mwyn ystyried y genhedlaeth nesaf a fydd yn ymuno â'r gweithlu, gallwn edrych ar y nifer o bobl 18 oed a fydd yna yn y blynyddoedd sydd i ddod, gan ddechrau gyda'r rhai oedd yn 18 oed adeg cyfrifiad 2021, hyd at y rhai o dan 1 oed adeg y cyfrifiad a fydd yn troi'n 18 oed yn 2039. Dangosir y tuedd yn Ffigur 7 isod, sy'n dangos y nifer o bobl 18 oed ym mhob blwyddyn, plws y newid canrannol ers cyfrifiad 2021.

Mae hyn yn seiliedig yn llwyr ar blant a phobl ifanc hyd at 18 oed yng Nghymru adeg cyfrifiad 2021. Nid yw'n cymryd unrhyw farwolaethau o'r grŵp oedran yma i ystyriaeth, ac nid yw'n ystyried y rhai a allai symud i mewn neu allan o Gymru (trwy fewnfudiad mewnol neu o fewn y DU) yn ystod y cyfnod o dan sylw. Mae hyn yn ddangosol felly nes i ONS gyhoeddi'r amcanestyniadau ffurfiol diwygiedig o'r boblogaeth.

Ffigur 7 – Y boblogaeth sy'n troi'n 18 oed



Ffynhonnell [3]

Mae'r tuedd yn dangos cynnydd o 7.1% (+2,465) erbyn 2029, wedyn gostyngiad sydyn o 18.1% (-6,250) erbyn 2050. Mae'r gostyngiad mewn pobl 18 oed o 2029 ymlaen yn awgrymu gostyngiad yn y gyfradd geni o 2011 ymlaen. Mae hyn yn destun pryder o ran argaeledd gweithlu at y dyfodol.

Y tueddiad cymharol yn Lloegr yw cynnydd o 9.7% erbyn 2029, wedyn gostyngiad o 8.5% erbyn 2050.

Oedrannau gweithio

Mae'r oedrannau gweithio craidd rhwng 16 a 64 oed, ond nid yw llawer ohonynt yn dechrau cyflogaeth lawn-amser nes eu bod wedi cwblhau addysg uwchradd yn 18, neu addysg drydyddol sawl blwyddyn yn ddiweddarach. Ar ben arall y rhod, mae rhai yn parhau i weithio y tu hwnt i 65 oed, a bydd hynny'n cynyddu nawr fod oedran pensiwn y wladwriaeth wedi cynyddu i 66 (a disgwylir iddo gynyddu eto i 67 yn 2026-2028), a rhai yn ymddeol yn gynt.


Nodir y newidiadau mewn bandiau oedran gwaith o gyfrifiad 2011 i gyfrifiad 2021 yn Nhabl 6 a Ffigur 8 isod.

Tabl 6 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran gwaith

Cyfwng oedran	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid	% Newid
Oedran 16-17	69,532	77,111	-7,579	-9.8%
Oedran 18-24	259,558	296,765	-37,207	-12.5%
Oedran 25-34	382,662	360,422	+22,240	+6.2%
Oedran 35-44	361,589	396,200	-34,611	-8.7%
Oedran 45-54	401,751	422,310	-20,559	-4.9%
Oedran 55-64	422,267	391,808	+30,459	+7.8%

Ffynhonnell [3, 4]

Ffigur 8 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran gwaith



Ffynhonnell [3, 4]

Yr unig gynnydd a welwyd yw'r bandiau oedran 25-34 (+6.2%) a 55-64 (+7.8%) er bod yr olaf o'r grwpiau hyn yn nesáu at oedran ymddeol. Gwelwyd gostyngiad ym mhob band oedran gwaith arall.

Ar y cyfan, gwelwyd gostyngiad o 2.4% yn yr oedranau gwaith (16-64 oed).

Oedranau hŷn

Mae'r boblogaeth 65 oed a hŷn yn cynnwys mwyafrif sydd wedi ymddeol, er bod rhai yn gweithio i oedranau hŷn sydd, fel a nodwyd uchod, yn cynyddu wrth i oedran pensiwn y wladwriaeth godi.


Nodir y newidiadau yn y bandiau oedran hŷn rhwng cyfrifiadau 2011 a 2021 yn Nhabl 7 a Ffigur 9 isod.

Tabl 7 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran hŷn

Cyfwng oedran	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid	% Newid
Oedran 65-74	358,963	300,550	+58,413	+19.4%
Oedran 75-84	220,496	187,434	+33,062	+17.6%
Oedran 85+	82,569	74,560	+8,009	+10.7%

Ffynhonnell [3, 4]

Ffigur 9 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran hŷn



Ffynhonnell [3, 4]

Mae yna gynydd sylweddol ym mhob band oedran hŷn, sy'n amrywio rhwng 10.7% ar gyfer 85+ oed i 19.4% ar gyfer 65-74 oed.

Drwyddi draw felly, cynyddodd yr oedrannau hŷn (65+ oed) 17.7%.

3.6. Cymhareb Dibyniaeth

Mesuriad rhyngwladol yw'r gymhareb dibyniaeth¹ sy'n cymharu maint y boblogaeth sy'n ddibynol yn economaidd (nid o oedran gwaith) â maint y boblogaeth sy'n economaidd gynhyrchiol (nad yw'n ddibynol, o oedran gwaith).

Mae'r boblogaeth ddibynol yn cynnwys pobl ifanc (0-14 oed) a phobl hŷn (65+ oed), ac mae'r boblogaeth nad ydynt yn ddibynol yn cynnwys pawb yn y canol (15-64 oed).

Yn ffurfiol, diffinnir y gymhareb dibyniaeth fe; a ganlyn, wedi ei mynegi fel canran.

¹ <https://www.who.int/data/gho/indicator-metadata-registry/imr-details/3441>

Dangosir y cymarebau dibyniaeth ar gyfer Cymru a Lloegr ar gyfer cyfrifiad 2021 o gymharu â chyfrifiad 2011 yn Nhabl 8 isod.

Tabl 8 – Newidiadau mewn cymarebau dibyniaeth rhwng 2011 a 2021

Cenedl	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid
Cymru	60.9%	54.6%	+6.3%
Lloegr	55.8%	51.6%	+4.3%

Ffynhonnell [3, 4]

Felly mae gan boblogaeth Cymru lefelau uwch o ddibyniaeth na phoblogaeth Lloegr, ac mae'n cynyddu'n gynt.

Rhoddir y cymariaethau dibyniaeth ar gyfer ardaloedd y byrddau iechyd, yn seiliedig ar gyfrifiadau 2021 a 2011, yn Nhabl 9 isod.

Tabl 9 – Cymarebau dibyniaeth fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Cyfrifiad 2021	Cyfrifiad 2011	Newid
Pob ardal (Cymru)	60.9%	54.6%	+6.3%
BIP Aneurin Bevan	60.2%	54.8%	+5.4%
BIP Betsi Cadwaladr	65.6%	58.3%	+7.3%
BIP Caerdydd a'r Fro	50.8%	46.4%	+4.4%
BIP Cwm Taf Morgannwg	58.9%	53.2%	+5.7%
BIP Hywel Dda	68.3%	59.3%	+9.1%
BIA Powys	73.4%	63.0%	+10.4%
BIP Bae Abertawe	58.5%	52.6%	+5.9%

Ffynhonnell [3, 4]

Mae cod lliw colofn Cyfrifiad 2021 yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol. Dangosir y gwerthoedd uwch mewn pinc a'r gwerthoedd is mewn glas. Felly mae lefelau isaf o ddibyniaeth yn BIP Caerdydd a'r Fro, a'r rhai uchaf yn BIA Powys. Mae'r gymhareb dibyniaeth wedi cynyddu ym mhob ardal, gyda'r cynnydd mwyaf ym Mhowys (+10.4%).

3.7. Oedrannau Cyfartalog


Nid yw'n hawdd cyfrifo oedran cyfartalog y boblogaeth ar sail data'r cyfrifiad am fod y cwmpas oedran uchaf (90+ oed) yn benagored. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru [6] yn nodi taw 42 oed yw oedran canolrifol poblogaeth Cymru yng nghyfrifiad 2021, o gymharu â 41 oed yng nghyfrifiad 2011. Yr oedran canolrifol yn Lloegr yng nghyfrifiad 2021 yw 40 oed, felly dwy flynedd yn iau na Chymru.

O ran yr ardaloedd awdurdod lleol, yr oedran canolrifol uchaf yw 50 oed ym Mhowys, wedyn 49 oed yng Nghonwy a Sir Fynwy, a'r oedrannau canolrifol isaf yw 34 oed yng Nghaerdydd a 38 oed yng Nghasnewydd.

3.8. Proffiliau Oedran y Boblogaeth

Dangosir proffil oedran Cymru yn Ffigur 10 isod. Mae'r bariau'n dangos cyfran y boblogaeth sydd ym mhob band oedran. Mae glas yn dynodi gwrywaidd a phinc yn dynodi benywaidd.

Ffigur 10 – Proffil oedran y boblogaeth









Ffynhonnell [3]

Mae'r ymchwydd tua'r top yn dangos bod y boblogaeth yn heneiddio. Daw'r gweithlu o'r boblogaeth, felly wrth gynllunio'r gweithlu mae proffil yr hanner gwaelod yn bwysig i asesu potensial gweithlu'r dyfodol a chlustnodi unrhyw ddiffygion at y dyfodol.

Dangosir proffiliau cyfatebol y boblogaeth ar gyfer ardaloedd y byrddau iechyd yn Ffigur 11 isod.

Ffigur 11 – Proffiliau oedran y boblogaeth fesul ardal bwrdd iechyd





Ffynhonnell [3]

Yma, gallwn weld gwahanol siapau'r boblogaeth ym mhob ardal bwrdd iechyd. Mae gan rai, fel BIA Powys a BIP Hywel Dda ymchwydd clir yn y boblogaeth hŷn, ond mae yna boblogaethau iau llai yn yr arfaeth. Mae poblogaeth iau BIP Caerdydd a'r

Fro yn glir, ac mae poblogaeth sylweddol o fyfyrwyr yn amlwg yn y band oedran 20-24.

Nodir y proffiliau oedran fesul ardal awdurdod lleol yn Atodiad B.

3.9. Rhaniad y Boblogaeth o ran Rhyw

Nodir nifer a chyfran y gwrywod a benywod sydd yna ym mhoblogaethau Cymru a'r byrddau iechyd, ar sail cyfrifiad 2021, yn Nhabl 10 isod.

Tabl 10 – Poblogaeth fesul rhyw fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Gwrywod	Menywod	% Gwryw	% Benyw
Pob ardal (Cymru)	1,521,000	1,586,489	48.9%	51.1%
BIP Aneurin Bevan	287,621	300,034	48.9%	51.1%
BIP Betsi Cadwaladr	336,151	350,742	48.9%	51.1%
BIP Caerdydd a'r Fro	240,450	253,809	48.6%	51.4%
BIP Cwm Taf Morgannwg	216,959	225,038	49.1%	50.9%
BIP Hywel Dda	186,713	196,018	48.8%	51.2%
BIA Powys	65,703	67,471	49.3%	50.7%
BIP Bae Abertawe	187,403	193,377	49.2%	50.8%

Ffynhonnell [3, 4]


Felly, ar draws Cymru, mae'r boblogaeth yn ymrannu'n 48.9% gwrywaidd, a 51.1% benywaidd, gyda bwlch o 2.1%. Mae'r bwlch wedi cynyddu 0.3% ers cyfrifiad 2011.

Mae codau lliw'r colofnau canran yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda phinc yn uwch a glas yn is. Felly, mae pinc yn y golofn gwrywaidd yn dangos bod y boblogaeth wrywaidd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol, ac mae pinc yn y golofn fenywaidd yn dangos bod y boblogaeth fenywaidd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r gyfran uchaf o fenywod, ac felly'r bwlch mwyaf rhwng y rhywiau â 2.7%, ond gan BIA Powys mae'r gyfran uchaf o wrywod, a'r bwlch lleiaf rhwng y rhywiau ag 1.3%.

Dangosir y bwlch rhwng y rhywiau mewn gwahanol fandiau oedran ar draws Cymru yn Ffigur 12 isod, lle mae'r pinc yn dangos bod yna fwy o fenywod na gwrywod, a'r glas yn dangos bod mwy o wrywod na benywod.

Ffigur 12 – Proffil y boblogaeth o ran rhyw









Ffynhonnell [3]

Yn y bandiau oedran ifanc, mae mwy o wrywod na benywod, ond o 25 oed i fyny, mae mwy o fenywod na gwrywod. Mae'r bwllch yn ehangu'n sylweddol yn yr oedrannau hŷn, sy'n adlewyrchu'r ffaith fod benywod yn byw'n hirach na gwrywod ar y cyfan.

Dangosir y proffiliau cyfatebol o ran rhywiau'r boblogaeth fesul ardal bwrdd iechyd yn Ffigur 13 isod.

Ffigur 13 – Proffiliau rhyw y boblogaeth fesul ardal bwrdd iechyd





Ffynhonnell [3]

Mae gan ddwy o'r ardaloedd bwrdd iechyd, BIP Bae Abertawe a BIA Powys, boblogaethau mwy o wrywod ifanc na'r ardaloedd bwrdd iechyd eraill.

Nodir y proffiliau rhyw fesul ardal awdurdod lleol yn Atodiad B.

4. Newidiadau Hanesyddol a'r Dyfodol o ran Poblogaeth

4.1. Y 30 Mlynedd Diwethaf

Yn Adran 3 uchod, fe ystyriwyd y boblogaeth adeg cyfrifiad 2021, a'r newidiadau ers cyfrifiad 2011. Yma rydyn ni'n ystyried sut mae'r boblogaeth wedi newid dros y 30 mlynedd diwethaf.

Nodir y newidiadau yn y boblogaeth ers 1991 yn Nhabl 11 isod.

Tabl 11 – Newidiadau yn y boblogaeth rhwng 1991 a 2021


Rhyw	Cyfrifiad 2021	1991	Newid	% Newid
Pawb	3,107,489	2,873,400	+234,089	+8.1%
Gwryw	1,521,000	1,391,000	+130,000	+9.3%
Benyw	1,586,489	1,482,400	+104,089	+7.0%

Ffynhonnell [3, 7]

Mae hyn yn dangos bod y boblogaeth wrywaidd wedi cynyddu mwy na'r boblogaeth fenywaidd dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf, ond, fel y gwelsom yn Nhabl 1 uchod, y gwrthwyneb oedd yr achos dros y deng mlynedd diwethaf.

Darlunnir y newid yn Ffigur 14 isod.

Ffigur 14 – Tuedd y boblogaeth rhwng 1991 a 2021




Ffynhonnell [3, 5, 7]

Cynyddodd y gyfradd twf o 2002, a tua'r un pryd, dechreuodd y bwllch rhwng y boblogaeth wrywaidd a benywaidd gau.

Fel yr esboniwyd yn Adran 3.1, gellid diwygio'r amcangyfrifon o'r boblogaeth rhwng 2011 a 2021, felly mae'n bosibl y caiff y tueddiad tua diwedd y cyfnod hwnnw ei ddiwygio.

Dangosir y newidiadau canrannol yn y gwahanol fandiau oed gwaith ers 1991 yn Ffigur 15 isod.

Ffigur 15 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran o 1991 i 2021



Ffynhonnell [3, 5, 7]

Mae hyn yn dangos cynnydd clir yn y bandiau oedran hŷn (55-64 a 65+ oed) dros y deng mlynedd ar hugain diwethaf, a gostyngiad yn y rhan fwyaf o'r bandiau oedran iau. Fel uchod, mae'r pwyntiau terfyn sy'n seiliedig ar gyfrifiad 2021 yn gywir, ond gellir diwygio manylion y tuedd dros y degawd diwethaf.

Dangosir y newidiadau fesul bandiau deng mlynedd yn Nhabl 12 isod.

Tabl 12 – Newidiadau yn y boblogaeth fesul band oedran rhwng 1991 a 2021

Cyfwng oedran	Newid o 1991 i 2021
Pob oedran	+8.1%
Oedran 0-9	-12.5%
Oedran 10-19	-1.4%
Oedran 20-29	-9.8%
Oedran 30-39	+1.5%
Oedran 40-49	-5.7%
Oedran 50-59	+41.7%
Oedran 60-69	+21.4%
Oedran 70-79	+37.9%

Cyfwng oedran	Newid o 1991 i 2021
Oedran 80-89	+45.8%
Oedran 90+	+132.1%

Ffynhonnell [3, 5, 7]

Mae hyn yn dangos twf clir yn y bandiau dros 50 oed, a gostyngiad yn y rhan fwyaf o'r bandiau o dan 50 oed.

4.2. Y 30 Mlynedd Nesaf

Yn Adran 3 uchod, fe ystyrion ni'r boblogaeth adeg cyfrifiad 2021, a'r newidiadau ers cyfrifiad 2011. Yma, rydyn ni'n ystyried sut y disgwylir i'r boblogaeth newid dros y 30 mlynedd nesaf.

Dangosir y newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth hyd 2050 yn Nhabl 13 isod.


Tabl 13 – Amcanestyniadau o'r boblogaeth rhwng 2021 a 2050

Rhyw	2050	Cyfrifiad 2021	Newid	% Newif
Pawb	3,356,272	3,107,489	+248,783	+8.0%
Gwryw	1,661,324	1,521,000	+140,324	+9.2%
Benyw	1,694,948	1,586,489	+108,459	+6.8%

Ffynhonnell [3, 8, 9]

Darlunnir y tuedd yn Ffigur 16 isod.

Ffigur 16 – Amcanestyniadau'r boblogaeth 2021 a 2050



Ffynhonnell [3, 8, 9]


Mae'r twf o 8.0% a ragwelir yn seiliedig ar yr amcangyfrif o boblogaeth 2020, sy'n uwch na'r boblogaeth go iawn a gofnodwyd yng nghyfrifiad 2021.

Fel yr esboniwyd yn Adran 3.1, mae'r amcangyfrifon o'r boblogaeth rhwng 2011 a 2021, gan gynnwys 2020, sef y dyddiad y seiliwyd yr amcanestyniad arno, ac amcanestyniadau'r dyfodol, yn amodol ar ddiwygiadau yn sgil cyfrifiad 2021, sy'n golygu y gellid diwygio'r tuedd at y dyfodol.

O ystyried y gostyngiad a welwyd yn y boblogaeth rhwng 2020 a 2021, mae hi'n rhesymol disgwyl y caiff y maint boblogaeth a ragwelwyd ar gyfer 2050 ei diwygio am i lawr, er hwyrach na fydd yna addasiad mor sylweddol i'r newid perthynol. Mae hynny'n golygu y gallai'r newid perthynol yn y boblogaeth erbyn 2050 fod yn agosach at 6% nac 8%, ond rhaid i ni aros tan Ragfyr 2023 i gael yr amcanestyniadau swyddogol.

Yn dilyn yr uchod, gallai'r newidiadau amcanestynedig mewn bandiau oed gwaith fod yn fwy realistidd wrth ystyried newidiadau cymharol o 2020 yn hytrach na chyfrifiad 2021 (ac anwybyddu crych 2021) fel a ddangosir yn Ffigur 17 isod.

Ffigur 17 – Newidiadau yn yr amcanestyniad o'r boblogaeth fesul band oedran rhwng 2020 a 2050



Ffynhonnell [3, 8, 9]

Mae hyn yn dangos cynnydd sylweddol yn y band 65+ oed tan 2038 pan mae'r ymchwydd yn y boblogaeth yn sgil blynyddoedd cenhedlaeth y cynnyrch ('baby-boom') yn dechrau pylu wrth i'r genhedlaeth hon farw.

Yn y tymor hir, gallai'r gostyngiad ymddangosol yn y boblogaeth iau (o dan 16 oed ac 16-24 oed) fod yn destun pryder am weithlu'r dyfodol.

Dangosir y newidiadau amcanestynedig fesul bandiau oedran deng mlynedd yn Nhabl 14 isod.

Tabl 14 – Newidiadau yn yr amcanestyniadau o'r boblogaeth fesul band oedran rhwng 2020 a 2050

Cyfwng oedran	Newid o 2020 i 2050
Pob oedran	+5.9%
Oedran 0-9	-12.5%
Oedran 10-19	-10.4%
Oedran 20-29	-12.4%
Oedran 30-39	+8.9%
Oedran 40-49	+15.9%
Oedran 50-59	+2.3%
Oedran 60-69	+9.3%
Oedran 70-79	+8.4%
Oedran 80-89	+80.8%
Oedran 90+	+121.4%

Ffynhonnell [3, 5, 7]

Mae'r twf mwyaf arwyddocaol yn y band dros 80 oed, o gyferbynnu â chwymp yn y band o dan 30 oed.

5. Nodweddion y Boblogaeth ar sail Cyfrifiad 2021

5.1. Data am Nodweddion

Mae cyfrifiad 2021 yn cofnodi nifer o wahanol nodweddion sy'n ymwneud â'r boblogaeth, fel cenedligrwydd, addysg ac amddifadedd, ac ystyrir y rhain isod.

Am bob nodwedd, mae data'r cyfrifiad yn dilyn yr un fformat sylfaenol, sy'n cynnwys ardal ddaearyddol, categori, a nifer y bobl ar gyfer pob cyfuniad o ardal/categori.

Mae data ar gael fesul ardal awdurdod lleol, ond at ddibenion yr adroddiad hwn, rhoddir y cyfansymiau fesul ardal bwrdd iechyd fel rheol (rhoddir tablau a graffiau ychwanegol fesul ardal awdurdod lleol yn Atodiad B). Mae yna nifer o gategoriâu mewn rhai achosion, ond at ddibenion dadansoddi a chyflwyno, caiff y rhain eu grwpio yn niferoedd hydrin fel rheol. Rhoddir rhagor o fanylion mewn rhai achosion.

Mae nodweddion y boblogaeth yn berthnasol i gynllunio'r gweithlu mewn sawl ffordd:

- Maen nhw'n dangos nodweddion o fewn y boblogaeth, fel lefel addysg, sy'n berthnasol i lenwi rolau penodol.
- Maen nhw'n hwyluso cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant trwy helpu i ddeall cyfansoddiad y boblogaeth er mwyn sicrhau bod amrywiaeth yn cael ei hadlewyrchu yn y gweithlu.
- Maen nhw'n cynorthwyo recriwtio trwy amlygu cryfderau ac anghenion y boblogaeth y mae'r gweithlu'n dod o ohoni.
- Maen nhw'n helpu i gadw gweithwyr trwy helpu i ddeall y sialensiau y mae'r boblogaeth leol yn eu hwynebu, sy'n cynnwys y gweithlu, fel lefelau amddifadedd, afiechyd, neu anawsterau o ran cyrraedd y gwaith.

Er bod ffocws yr adroddiad hwn ar gyflenwad y gweithlu, mae hi'n glir fod llawer o'r nodweddion hyn yn cael effaith ar y galw am wasanaethau iechyd a gofal hefyd.

5.2. Nodweddion Cenedlaethol

Cenedligrwydd

Mae data'r cyfrifiad yn cynnwys 72 gwahanol fath o genedligrwydd o bedwar ban y byd. At ddibenion dadansoddi, mae'r rhain wedi eu grwpio'n chwe rhanbarth o'r byd:

- Prydeinig, sef y DU, cenedligrwydd deuol ac Ynysoedd Prydain
- Ewropeaidd
- Affricanaidd
- Asiaidd, sy'n cynnwys y Dwyrain Canol a phob rhan o Asia
- Americanaidd, sy'n cynnwys Gogledd, Canolbarth a De America
- Arall, sy'n cynnwys Awstralia, Oceania a sawl un arall.

Nodir y canran o bobl ym mhob ardal y mae eu cenedligrwydd ym mhob grŵp yn Nhabl 15 isod.

Tabl 15 – Cenedligrwydd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Prydeinig	Ewropeaidd	Affricanaidd	Asiaidd	Americanaidd	Arall
Pob ardal (Cymru)	95.8%	2.6%	0.3%	1.0%	0.2%	0.1%
BIP Aneurin Bevan	96.6%	2.2%	0.3%	0.7%	0.1%	0.1%

Ardal	Prydeinig	Ewropeaidd	Affricanaidd	Asiaidd	Americanaidd	Arall
BIP Betsi Cadwaladr	96.1%	2.9%	0.2%	0.6%	0.1%	0.1%
BIP Caerdydd a'r Fro	91.9%	3.9%	1.0%	2.6%	0.3%	0.2%
BIP Cwm Taf Morgannwg	97.5%	1.6%	0.2%	0.6%	0.1%	0.0%
BIP Hywel Dda	96.7%	2.5%	0.1%	0.5%	0.1%	0.1%
BIA Powys	96.8%	2.3%	0.1%	0.5%	0.1%	0.1%
BIP Bae Abertawe	95.6%	2.4%	0.4%	1.3%	0.2%	0.1%

Ffynhonnell [10]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol â'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly mae gan 95.8% o'r boblogaeth genedigigrwydd Brydeinig (0.8% yn is na 2011) ac mae gan 4.2% genedigigrwydd o weddill y byd.

O'r ardaloedd bwrdd iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r gyfran isaf o genedigigrwydd Brydeinig ar lefel o 91.9%.

Dangosir y cyfansoddiad o ran cenedligrwydd ym mhob ardal yn Ffigur 18 isod.


Ffigur 18 – Cenedligrwydd fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [10]

Dangosir dosbarthiad y grwpiau cenedligrwydd mwyaf arwyddocaol fesul ardal awdurdod lleol yn Ffigur 19 isod.

Ffigur 19 – Cenedligrwydd fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [10]


Mae'r cyfrifiad yn caniatáu i wladolion y DU gofnodi eu cenedligrwydd mewn sawl ffordd, gan gynnwys

- Prydeinig yn unig
- cenedl/rhanbarth o'r DU yn unig (e.e. Cymreig yn unig)
- cenedl/rhanbarth o'r DU a Phrydeinig (e.e. Cymreig a Phrydeinig yn unig)
- cyfuniadau eraill o hunaniaethau o'r DU, a allai gynnwys Cymreig
- o leiaf un hunaniaeth o'r DU ac unrhyw genedligrwydd arall.

Trwy ffocysu ar y rhai sy'n dweud fod ganddynt genedligrwydd Cymreig, mae 63.3% yn nodi eu bod yn Gymry, a 55.2% yn nodi eu bod yn Gymry yn unig.

Dangosir dosbarthiad o ran cenedligrwydd Cymreig fesul ardal awdurdod lleol yn Ffigur 20 isod.

Ffigur 20 – Cenedligrwydd Cymreig fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [10]

Ethnigrwydd

Cyfrifir ethnigrwydd mewn un o 19 categori, gan gynnwys amrywiadau ar wyn, Asiaidd, hil cymysg ac arall, ond defnyddir y prif grwpiau hyn yn Nhabl 16 isod, sy'n dangos y canran o bobl ym mhob ardal am bob grŵp.

Tabl 16 – Ethnigrwydd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Gwyn	Asiaidd	Du	Cymysg	Arall
Pob ardal (Cymru)	93.8%	2.9%	0.9%	1.6%	0.9%
BIP Aneurin Bevan	94.2%	2.9%	0.8%	1.5%	0.7%
BIP Betsi Cadwaladr	96.8%	1.4%	0.3%	1.1%	0.4%
BIP Caerdydd a'r Fro	83.3%	7.6%	2.9%	3.5%	2.6%
BIP Cwm Taf Morgannwg	96.8%	1.5%	0.3%	1.1%	0.3%
BIP Hywel Dda	97.1%	1.2%	0.3%	1.0%	0.4%
BIA Powys	97.7%	0.9%	0.2%	0.9%	0.3%
BIP Bae Abertawe	93.4%	3.3%	0.9%	1.4%	1.0%

Ffynhonnell [11]


Mae cod lliw i'r colofnau sy'n berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, mae 93.8% o'r boblogaeth o ethnigrwydd gwyn (1.8% yn llai na 2011) a 6.2% o ethnigrwydd eraill.

O ardaloedd y byrddau iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r boblogaeth fwyaf o ethnigrwydd nad ydynt yn wyn, â 16.7%.

Darlunnir ethnigrwydd fesul bwrdd iechyd yn Ffigur 21 isod.


Ffigur 21 – Ethnigrwydd fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [11]

Mae Ffigur 22 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o ethnigrwydd gwyn mewn pinc, a'r cyfrannau uchaf cyfatebol o ethnigrwydd eraill mewn glas.

Ffigur 22 – Ethnigrwydd gwyn/arall fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [11]

Prif iaith

Mae data'r cyfrifiad yn cynnwys 94 o wahanol ieithoedd o bedwar ban y byd. At ddibenion dadansoddi, mae'r rhain wedi eu grwpio'n chwe rhanbarth o'r byd:

Nodir y canran o bobl ym mhob ardal y mae eu prif iaith ym mhob grŵp yn Nhabl 17 isod.

Tabl 17 – Prif iaith fesul ardal awdurdod iechyd

Ardal	Cymraeg/Saesneg	Ewropeaidd	Arabeg	Asiaidd	Affricanaidd	Arall
Pob ardal (Cymru)	93.9%	1.8%	0.3%	1.0%	0.1%	0.1%
BIP Aneurin Bevan	94.2%	1.6%	0.1%	0.9%	0.1%	0.1%
BIP Betsi Cadwaladr	94.4%	2.1%	0.1%	0.5%	0.0%	0.1%
BIP Caerdydd a'r Fro	90.2%	2.6%	1.0%	2.7%	0.4%	0.1%
BIP Cwm Taf Morgannwg	95.1%	1.2%	0.0%	0.5%	0.0%	0.0%
BIP Hywel Dda	95.3%	1.5%	0.1%	0.4%	0.0%	0.1%
BIA Powys	95.7%	1.2%	0.1%	0.5%	0.0%	0.0%
BIP Bae Abertawe	93.8%	1.7%	0.3%	1.3%	0.1%	0.1%

Ffynhonnell [12]

Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, Cymraeg neu Saesneg yw prif iaith neu iaith gyntaf 93.9% o'r boblogaeth (0.2% yn uwch na 2011) ac mae gan 3.3% o'r boblogaeth brif iaith wahanol.

O ardaloedd y byrddau iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r gyfran isaf o'r boblogaeth sy'n siarad Saesneg neu Gymraeg, ac felly sydd â'r amrywiaeth mwyaf o ran ieithoedd eraill.

Mae'r categori 'arall' uchod yn cynnwys iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac ieithoedd arwyddion eraill. Os canolbwyntiwn ni ar y rhain, dangosir y nifer o bobl y mae BSL neu iaith arwyddion arall yn brif iaith iddynt ym mhob ardal bwrdd iechyd yn Nhabl 18 isod.

Tabl 18 – Iaith arwyddion fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Iaith Arwyddion Prydain	Iaith Arwyddion Arall
Pob ardal (Cymru)	891	153
BIP Aneurin Bevan	198	28
BIP Betsi Cadwaladr	169	16
BIP Caerdydd a'r Fro	141	32
BIP Cwm Taf Morgannwg	115	32
BIP Hywel Dda	121	23

Ardal	Iaith Arwyddion Prydain	Iaith Arwyddion Arall
BIA Powys	21	3
BIP Bae Abertawe	126	19


Ffynhonnell [12]

Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfrannau cyfartalog cenedlaethol o'r boblogaeth ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

BSL yw prif iaith 0.029% o'r boblogaeth ac mae 0.005% yn enwi iaith arwyddion arall fel eu prif iaith.

Wrth ystyried hyn fesul ardal awdurdod lleol, y nifer fwyaf o bobl sy'n dweud taw BSL yw eu prif iaith yw 115 yng Nghaerdydd, ond o ran cyfran, Sir Gaerfyrddin sydd uchaf gyda 0.045%. Dangosir y dosbarthiad daearyddol fesul cyfrannau defnyddwyr BSL mewn awdurdodau lleol yn Ffigur 23 isod.

Ffigur 23 – Defnydd o BSL fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [12]

Saesneg

Cyfrifir gallu yn Saesneg mewn un o bump categori, ac mae 'Saesneg' yn cynnwys y Gymraeg yng Nghymru hefyd:

- Saesneg yw'r brif iaith
- Nid Saesneg yw'r brif iaith ond yn gallu ei siarad yn dda iawn
- Nid Saesneg yw'r brif iaith ond yn gallu ei siarad yn dda
- Nid Saesneg yw'r brif iaith a ddim yn gallu ei siarad yn dda
- Nid Saesneg yw'r brif iaith a ddim yn gallu ei siarad.

Nodir y canran o bobl ym mhob ardal â phob lefel o Saesneg yn Nhabl 19 isod.

Tabl 19 – Iaith Saesneg fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Prif iaith	Yn gallu siarad yn dda iawn	Yn gallu siarad yn dda	Methu siarad yn dda	Methu siarad
Pob ardal (Cymru)	93.9%	1.4%	1.1%	0.6%	0.1%
BIP Aneurin Bevan	94.2%	1.1%	1.0%	0.5%	0.1%
BIP Betsi Cadwaladr	94.4%	1.1%	1.0%	0.5%	0.1%
BIP Caerdydd a'r Fro	90.2%	3.0%	2.3%	1.2%	0.2%
BIP Cwm Taf Morgannwg	95.1%	0.8%	0.6%	0.3%	0.1%
BIP Hywel Dda	95.3%	1.0%	0.7%	0.4%	0.1%
BIA Powys	95.7%	0.8%	0.7%	0.3%	0.1%
BIP Bae Abertawe	93.8%	1.5%	1.2%	0.6%	0.1%

Ffynhonnell [13]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda pinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, ar gyfer 93.9% o'r boblogaeth, Saesneg (neu'r Gymraeg) yw'r brif iaith, a dim ond 0.7% o'r boblogaeth sy'n methu â siarad Saesneg (neu'r Gymraeg) yn dda.

O ardaloedd y byrddau iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r boblogaeth isaf sy'n siarad Saesneg (neu'r Gymraeg), sy'n adlewyrchu'r amrywiaeth o ran cenedligrwydd yn yr ardal.

Os grwpiwn ni'r bobl hynny y mae'r Saesneg (neu'r Gymraeg) yn brif iaith iddynt neu sy'n gallu siarad yr iaith yn dda iawn neu'n dda gyda'i gilydd, yna dangosir yr ardaloedd awdurdod lleol â galluoedd da (mewn pinc, neu'n gyferbyniol llai da, mewn glas) yn Saesneg yn Ffigur 24 isod.

Ffigur 24 – Gallu da yn Saesneg fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [13]

Y Gymraeg

Adroddir ar allu yn y Gymraeg mewn dau fath o ddata yn y cyfrifiad:

- Y gallu i siarad, darllen, ysgrifennu neu ddeall Cymraeg
- Felly mae yna 9 cyfuniad o allu i siarad, darllen, ysgrifennu neu ddeall Cymraeg, fel “Yn gallu siarad a darllen, ond yn methu ag ysgrifennu Cymraeg”.

At ddibenion dadansoddi, ystyrir y cyntaf o'r setiau data hyn, yn seiliedig ar sgiliau iaith unigol yn hytrach na chyfuniadau. Mae'r ymatebion yn seiliedig ar asesiadau'r unigolion o'u gallu yn hytrach nag unrhyw feini prawf ffurfiol. Yn ogystal, nid oes yna unrhyw ddadansoddiad o ba mor dda y gall rhywun siarad, darllen, ysgrifennu neu ddeall Cymraeg, ond gellir tybio, os yw rhywun yn hawlio bod ganddynt y gallu, eu bod yn hyderus yn eu gallu.

Nodir canran y bobl yn ardal pob bwrdd iechyd â phob sgil iaith yn y Gymraeg yn Nhabl 20 isod.

Tabl 20 – Y Gymraeg fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Siarad	Darllen	Ysgrifennu	Deall	Dim
Pob ardal (Cymru)	17.3%	16.8%	14.8%	21.3%	72.7%
BIP Aneurin Bevan	8.3%	8.3%	7.2%	10.0%	84.6%
BIP Betsi Cadwaladr	28.3%	26.6%	24.2%	33.6%	59.6%
BIP Caerdydd a'r Fro	11.6%	12.1%	10.4%	14.2%	80.2%
BIP Cwm Taf Morgannwg	10.6%	11.3%	9.3%	13.9%	80.3%
BIP Hywel Dda	32.7%	29.9%	26.8%	39.1%	53.7%
BIA Powys	16.0%	15.5%	13.2%	21.4%	73.0%
BIP Bae Abertawe	11.7%	11.9%	9.7%	16.2%	78.2%

Ffynhonnell [14]

Mae gan Lywodraeth Cymru weledigaeth i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 [15]. Yn seiliedig ar boblogaeth Cymru yng nghyfrifiad 2021 (3,107,489), mae'r weledigaeth hon gyfystyr â 32.2% o'r boblogaeth gyfredol yn siarad Cymraeg erbyn 2050.


Yn Nhabl 20 uchod, rhoddir cod lliw i lefelau sgiliau Cymraeg yn berthynol â'r targed yma. Mae'r weledigaeth ar gyfer siarad Cymraeg yn hytrach na darllen, ysgrifennu neu ddeall, ond defnyddir yr un targed at ddibenion cymharu trwy gydol y tabl.

Felly, ar draws Cymru, dim ond 17.3% o'r boblogaeth sy'n medru'r Gymraeg (1.0% yn is na 2011), sydd ychydig bach dros hanner ffordd i weledigaeth 2050. Mae mwy o bobl yn gallu deall Cymraeg llafar, a llai yn gallu darllen neu ddeall Cymraeg.

Ar y llaw arall, nid oes gan 72.7% unrhyw sgiliau yn y Gymraeg, sy'n awgrymu fod gan 27.3% o'r boblogaeth (8 rywfaint o sgiliau yn y Gymraeg).

Dangosir sgiliau Cymraeg yn Ffigur 25 isod, lle mae'r llinell ddotiog oren yn dangos gweledigaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 2050 fel cyfartaledd ar draws y wlad.

Ffigur 25 – Y Gymraeg fesul ardal bwrdd iechyd




Ffynhonnell [14]

O blith yr ardaloedd bwrdd iechyd, gan BIP Hywel Dda mae'r lefel uchaf o sgiliau yn y Gymraeg, ac mae lefel y siaradwyr Cymraeg yno'n rhagori ychydig bach ar darged Llywodraeth Cymru. Nid yw BIP Betsi Cadwaladr yn bell ar ei hôl hi, ond mae gan boblogaethau ardaloedd y byrddau iechyd eraill lefelau is o lawer o sgiliau Cymraeg.

Mae Ffigur 26 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o sgiliau Cymraeg, lle mae pinc yn uwch na gweledigaeth Llywodraeth Cymru a glas yn is.

Ffigur 26 – Y Gymraeg fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [14]

Felly, lle mae gan BIP Hywel Dda y gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg o safbwynt ardal bwrdd iechyd, mae gan rannau o BIP Betsi Cadwaladr gyfrannau uwch, gyda 62.7% yng Ngwynedd a 54.3% yn Ynys Môn.

Ymfudiad

Cyfrifir ymfudiad ar sail blwyddyn cyrraedd y DU a chaiff ei grwpio'n 11 cyfnod o amser, plws y rhai a aned yn y DU. At ddibenion dadansoddi, mae ymfudiad yn cael ei grwpio ymhellach yn bum cyfnod o amser, plws y rhai a aned yn y DU, fel a ddangosir yn Nhabl 21 isod, sy'n rhoi'r canran o'r boblogaeth sy'n cyrraedd y DU ym mhob cyfnod, neu a aned yn y DU fel arall.

Tabl 21 – Ymfudiad fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Ganed yn y DU	Wedi cyrraedd 1900-1960	Wedi cyrraedd 1961-1980	Wedi cyrraedd 1981-2000	Wedi cyrraedd 2001-2010	Wedi cyrraedd 2011-2021
Pob ardal (Cymru)	93.1%	0.3%	0.7%	1.0%	2.0%	2.9%
BIP Aneurin Bevan	94.0%	0.3%	0.7%	0.9%	1.8%	2.3%
BIP Betsi Cadwaladr	94.2%	0.3%	0.7%	0.8%	1.7%	2.4%
BIP Caerdydd a'r Fro	86.3%	0.4%	1.1%	2.0%	3.8%	6.4%
BIP Cwm Taf Morgannwg	95.8%	0.2%	0.5%	0.6%	1.3%	1.6%
BIP Hywel Dda	94.6%	0.4%	0.7%	0.8%	1.5%	2.0%
BIA Powys	95.2%	0.4%	0.8%	0.8%	1.3%	1.6%
BIP Bae Abertawe	92.7%	0.2%	0.6%	1.0%	2.2%	3.2%

Ffynhonnell [16]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly ganed 93.1% o'r boblogaeth yn y DU (1.5% yn is na 2011), cyrhaeddodd 2.0% cyn 2000, ac mae 4.9% wedi cyrraedd ers 2001.

O ardaloedd y byrddau iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r gyfran uchaf (13.7%) a aned y tu allan i'r DU.

Dangosir y cyfnodau cyrraedd o ran ymfudiad fesul bwrdd iechyd yn Ffigur 27 isod.

Ffigur 27 – Ymfudiad fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [16]


Mae Ffigur 28 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o ymfudiad hyd at 2000 ac ers 2001, gyda'r rhai sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn pinc, a'r rhai sy'n is mewn glas.

Yng Nghaerdydd, mae 45,785 o bobl, sef 12.6% o boblogaeth Caerdydd, wedi cyrraedd y DU ers 2001. Yr uchaf ond un yw Casnewydd, gyda 9.2% yn cyrraedd ers 2001.

Ffigur 28 – Ymfudiad fesul ardal awdurdod lleol

Hyd at 2000

Ers 2001



Ffynhonnell [16]

Mae ymfudiad, fel y gwelir uchod, yn dangos pobl yn cyrraedd Cymru o dramor, plws y rhai sy'n byw yng Nghymru a aned yn y DU. Am fod y cyfrifiad ond yn cofnodi pobl sy'n bresennol yn y wlad, ni all ddangos y rhai sydd wedi gadael y wlad, oherwydd yn amlwg, ni fyddent yn bresennol mwyach i lenwi'r cyfrifiad.

Symudiad

Mae symudiad yn ystyried cyfeiriadau pobl adeg y cyfrifiad a blwyddyn ynghynt. Mae'n cynnig darlun o'r bobl sydd wedi symud o fewn y DU yn ddiweddar neu sydd wedi symud o dramor. Yn yr un modd ag ymfudiad, dim ond pobl sy'n dal i fod yn y wlad neu sydd wedi symud i'r wlad, ac sydd felly'n bresennol i lenwi'r cyfrifiad, y gall y cyfrifiad eu cofnodi, yn hytrach na phobl sydd wedi symud o'r wlad.

Cofnodir ymfudiad mewn pedwar categori.

- Yr un cyfeiriad un flwyddyn cyn y cyfrifiad â'r cyfeiriad adeg y cyfrifiad
- Ymfudo oddi mewn i'r DU: roedd y cyfeiriad flwyddyn yn ôl yn y DU
- Ymfudo o'r tu hwnt i'r DU: roedd y cyfeiriad flwyddyn yn ôl y tu hwnt i'r DU
- Roedd y cyfeiriad flwyddyn yn ôl yn gyfeiriad myfyriwr yn ystod y tymor neu mewn ysgol breswyl o fewn y DU.

Dylid nodi na all ymfudiad o fewn y DU wahaniaethu rhwng y rhai sydd wedi symud i Gymru o wlad arall yn y DU, a'r rhai sydd wedi symud o fewn Cymru.

Nodir y gyfran o bobl sy'n symud yn y categorïau uchod ym mhob bwrdd iechyd yn Nhabl 22 isod.

Tabl 22 – Symudiad fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Yr un cyfeiriad y llynedd	Wedi symud o'r DU	Wedi symud o dramor	Cyfeiriad myfyriwr y llynedd
Pob ardal (Cymru)	89.7%	8.2%	0.5%	0.6%
BIP Aneurin Bevan	91.7%	6.8%	0.3%	0.2%

Ardal	Yr un cyfeiriad y llynedd	Wedi symud o'r DU	Wedi symud o dramor	Cyfeiriad myfyriwr y llynedd
BIP Betsi Cadwaladr	90.6%	7.7%	0.4%	0.4%
BIP Caerdydd a'r Fro	84.5%	11.6%	1.2%	1.7%
BIP Cwm Taf Morgannwg	91.6%	6.9%	0.4%	0.2%
BIP Hywel Dda	89.7%	8.4%	0.4%	0.6%
BIA Powys	90.5%	8.1%	0.4%	0.2%
BIP Bae Abertawe	89.0%	8.5%	0.6%	1.0%

Ffynhonnell [17]

Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.


Felly mae gan 89.7% o'r boblogaeth yr un cyfeiriad â'r flwyddyn flaenorol, ac mae 8.8% wedi symud i Gymru.

O ystyried y cyflawnwyd cyfrifiad 2021 bron flwyddyn union ar ôl dechrau'r pandemig Covid-19, pan cyfyngwyd ar symud am gyfnodau helaeth, mae hi i'w weld yn rhyfedd fod cynifer o bobl (272,437, gan gynnwys 16,334 o dramor) wedi gallu symud. Ar y llaw arall, mae hi'n bosibl y byddai'r nifer o bobl yn symud wedi bod yn uwch o lawer, yn arbennig o dramor, heblaw am y cyfyngiadau yn ystod y pandemig.

O blith ardaloedd y byrddau iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r gyfran uchaf (12.8%) o bobl a symudodd i'r ardal yn ystod o flwyddyn hyd at gyfrifiad 2021.

Darlunnir symudiad pobl i Gymru, plws y rhai a arhosodd yma, fesul bwrdd iechyd yn Ffigur 29 isod.


Ffigur 29 – Symudiad fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [17]

Mae Ffigur 30 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o symudiad o fewn y DU ac o dramor, gyda'r rhai sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn pinc a'r rhai sy'n is mewn glas.

Ffigur 30 – Symudiad fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [17]

5.3. Nodweddion Personol

Addysg

Cyfrifir addysg a sail y cymhwyster uchaf mewn un o wyth categori

- Dim cymwysterau
- Cymwysterau Lefel 1 a lefel mynediad: 1 i 4 TGAU gradd A* i C, unrhyw TGAU â graddau eraill, Lefel O neu TAU (unrhyw raddau), 1 Safon UA, NVQ lefel 1, GNVQ Sylfaenol, Sgiliau Sylfaenol neu Hanfodol
- Cymwysterau Lefel 2: 5 neu ragor TGAU (A* i C neu 9 i 4), lefel O (llwyddo), TAU (gradd 1), Ardystiad Ysgol, 1 Safon Uwch, 3 neu 3 Safon UA, VCE, Diploma Canolradd neu Uwch, Diploma Canolradd Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 2, GNVQ Canolradd, Crefft City and Guilds, BTEC Cyntaf neu Ddiploma Cyffredinol, Diploma RSA
- Cymwysterau Lefel 3: 2 Safon Uwch neu VCE neu ragor, 4 Safon UA neu ragor, Tystysgrif Ysgol Uwch, Diploma Datblygu neu Uwch, Diploma Uwch Bagloriaeth Cymru, NVQ lefel 3, GNVQ Uwch, Crefft Uwch City and Guilds, ONC, OND, BTEC Cenedlaethol, Diploma Uwch RSA.
- Cymwysterau Lefel 4 ac uwch: gradd (BA, BSc), gradd uwch (MA, PhD, TAR), NVQ lefel 4 i 5, HNC, HND, Diploma Uwch RSA, BTEC Lefel Uwch, cymwysterau proffesiynol (er enghraifft addysgu, nyrsio, cyfrifeg)
- Prentisiaeth
- Arall: cymwysterau galwedigaethol neu cysylltiedig â gwaith, cymwysterau eraill a gafwyd yng Nghymru a Lloegr, cymwysterau a gafwyd y tu hwnt i Gymru neu Loegr (lle nad oes cymhwyster cyfatebol neu lle bo'n anhysbys)
- Amherthnasol i'r rhai sy'n is na'r oedran ar gyfer cymwysterau ffurfiol

Nodir y canran o bobl ym mhob ardal a phob categori o addysg yn Nhabl 23 isod. Cyfunir 'prentisiaeth' ac 'arall' ac ni chynhwysir y rhai 'amherthnasol'.

Tabl 23 – Addysg fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Dim	Lefel 1	Lefel 2	Lefel 3	Lefel 4	Arall
Pob ardal (Cymru)	16.4%	7.2%	11.8%	14.2%	26.0%	6.8%
BIP Aneurin Bevan	18.1%	7.9%	12.1%	13.2%	23.6%	6.6%
BIP Betsi Cadwaladr	15.5%	7.4%	12.4%	14.2%	25.7%	7.5%
BIP Caerdydd a'r Fro	13.2%	5.9%	9.8%	15.1%	32.1%	5.6%
BIP Cwm Taf Morgannwg	19.4%	7.6%	12.2%	13.5%	22.5%	6.6%
BIP Hywel Dda	15.5%	7.1%	12.4%	14.5%	26.7%	7.2%
BIA Powys	16.0%	7.3%	12.6%	14.4%	26.9%	7.4%
BIP Bae Abertawe	17.1%	6.9%	11.7%	14.8%	25.0%	7.2%


Ffynhonnell [18]

Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Lefel 4 (lefel gradd ac uwch) yw lefel yr addysg sydd ei hangen ar gyfer nifer fawr o rolau yn y GIG. Ar draws Cymru, mae 26.0% o'r boblogaeth wedi cyflawni'r lefel hon (5.9% yn uwch na 2011), gyda'r uchaf yn ardal BIP Caerdydd a'r Fro (32.1%).

Dangosir dosbarthiad y boblogaeth â chymwysterau lefel 4 fesul ardal awdurdod lleol yn Ffigur 31 isod. Mae'n amrywio o 17.8% ym Mlaenau Gwent i 33.1% yn Sir Fynwy.

Ffigur 31 – Addysg Lefel 4 fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [18]

lechyd

Cyfrifir iechyd mewn un o bump categori:

- lechyd da iawn
- lechyd da
- lechyd gweddol
- lechyd gwael
- lechyd gwael iawn.

Mae iechyd yn rhywbeth sy'n cael ei hunan-adrodd yn y cyfrifiad ac felly mae'n oddrychol yn hytrach na bod yn asesiad ffurfiol; gallai adlewyrchu teimladau ar y diwrnod hefyd yn hytrach nac yn y tymor hwy. Mae cyfuno'r categorïau iechyd da yn un 'da' a'r categorïau iechyd gwael yn un 'gwael', yn dileu rhywfaint o'r goddrychedd yma.

Nodir y canran o bobl ym mhob ardal â phob lefel o iechyd yn Nhabl 24 isod.

Tabl 24 – lechyd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Da	Gweddol	Gwael
Pob ardal (Cymru)	78.6%	14.5%	6.9%
BIP Aneurin Bevan	77.5%	14.9%	7.6%
BIP Betsi Cadwaladr	79.6%	14.3%	6.0%
BIP Caerdydd a'r Fro	81.6%	12.5%	5.9%
BIP Cwm Taf Morgannwg	76.6%	15.2%	8.2%
BIP Hywel Dda	77.6%	15.4%	7.0%
BIA Powys	79.0%	15.1%	5.9%
BIP Bae Abertawe	77.6%	14.5%	7.9%

Ffynhonnell [19]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd, a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly mae 78.6% o'r boblogaeth yn cofnodi iechyd da neu dda iawn a 6.9% yn cofnodi iechyd gwael neu wael iawn.

O blith ardaloedd y byrddau iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r lefel uchaf o iechyd da, a allai adlewyrchu'r ffaith fod ei phoblogaeth yn iau.

Dangosir dosbarthiad iechyd da a gwael fesul ardal awdurdod lleol yn Ffigur 32 isod.

Ffigur 32 – Iechyd fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [19]

Dangosir y newid mewn iechyd a gofnodwyd ar draws Cymru rhwng cyfrifiad 2011 a chyfrifiad 2021 yn Nhabl 25 isod. Mae'r data yn y tabl wedi ei safoni o ran oedran² er mwyn caniatáu ar gyfer cymhariaeth ystyrlon rhwng gwahanol gyfnodau o amser trwy ddileu effeithiau poblogaeth sy'n newid yn naturiol. Er enghraifft, mewn poblogaeth sy'n heneiddio, byddai lefel yr afiechyd yn cynyddu'n naturiol, ond trwy ganiatáu ar gyfer hyn, gallwn weld sut mae iechyd cyffredinol y boblogaeth wedi newid dros amser mewn gwirionedd.

Tabl 25 – Newid mewn iechyd rhwng 2011 a 2021

Cyfrifiad	Da iawn	Da	Gweddol	Gwael	Gwael iawn
2011	45.7%	31.4%	15.0%	6.0%	1.9%
2021	46.6%	32.5%	14.1%	5.1%	1.6%
Newid	+0.9%	+1.1%	-0.9%	-0.9%	-0.3%

Ffynhonnell [20]

² <https://blog.ons.gov.uk/2023/01/19/age-standardising-data-what-does-this-mean-and-why-does-it-matter/>

Felly, bu gwelliant mewn iechyd cyffredinol, gyda chyfran fwy yn cofnodi iechyd da a llai yn cofnodi iechyd gweddol neu wael.

Anabledd

Cyfrifir anabledd mewn un o bedwar categori:

- Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Dim anhwylderau corfforol neu iechyd meddwl hirdymor
- Ddim yn anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb: Ag anhwylder corfforol neu iechyd meddwl hirdymor ond nid yw hyn yn cyfyngu ar weithgareddau pob dydd
- Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Cyfyngu ychydig bach ar weithgareddau pob dydd
- Anabl o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Cyfyngu'n sylweddol ar weithgareddau pob dydd.

Nodir y canran o bobl ym mhob ardal â phob lefel o anabledd yn Nhabl 26 isod.

Tabl 26 – Anabledd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Dim cyflwr	Cyflwr iechyd: ddim yn gyfyngedig	Anabl: lled-gyfyngedig	Anabl: cyfyngedig iawn
Pob ardal (Cymru)	71.8%	6.6%	11.3%	10.3%
BIP Aneurin Bevan	71.4%	6.6%	11.2%	10.8%
BIP Betsi Cadwaladr	72.7%	6.6%	11.3%	9.4%
BIP Caerdydd a'r Fro	73.9%	7.1%	10.5%	8.4%
BIP Cwm Taf Morgannwg	70.2%	6.5%	11.5%	11.8%
BIP Hywel Dda	71.1%	6.4%	11.9%	10.6%
BIA Powys	72.8%	6.9%	11.5%	8.7%
BIP Bae Abertawe	70.2%	6.4%	11.5%	11.9%


Ffynhonnell [21]

Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, ar draws Cymru, nid oes gan 71.8% o'r boblogaeth unrhyw anabledd, ac mae gan 21.6% anabledd o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Wrth grwpio pobl o dan anabl (o dan y Ddeddf Cydraddoldeb) neu beidio, ac fesul ardal awdurdod lleol, dangosir yr ardaloedd â'r lefelau uchaf o anabledd (gyda chod lliw sy'n berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol) yn Ffigur 33 isod.

Ffigur 33 – Anabledd fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [21]

Rhywedd

Cyfrifir rhywedd mewn un o 7 categori. Yn Nhabl 27 isod, sy'n dangos y canran o bobl o bob rhywedd ym mhob ardal, cyfunir dynion traws a menywod traws fel un categori traws.

Tabl 27 – Rhywedd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Fel yn ol genedigaeth	Gwahanol amhenodol	Traws	Anneuaidd	Arall	Heb ei nodi
Pob ardal (Cymru)	93.3%	0.2%	0.1%	0.1%	0.0%	6.3%
BIP Aneurin Bevan	93.8%	0.2%	0.1%	0.0%	0.0%	5.8%
BIP Betsi Cadwaladr	92.8%	0.1%	0.1%	0.0%	0.0%	6.9%
BIP Caerdydd a'r Fro	93.3%	0.2%	0.2%	0.1%	0.1%	6.1%
BIP Cwm Taf Morgannwg	94.0%	0.1%	0.1%	0.0%	0.0%	5.7%
BIP Hywel Dda	92.9%	0.1%	0.1%	0.1%	0.0%	6.8%
BIA Powys	92.7%	0.1%	0.1%	0.0%	0.0%	7.0%
BIP Bae Abertawe	93.2%	0.2%	0.1%	0.1%	0.0%	6.4%

Ffynhonnell [22]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, mae gan 93.3% o'r boblogaeth yr un rhywedd a briodolwyd iddynt adeg eu geni, mae 0.4% yn cofnodi rhywedd gwahanol i'r un a briodolwyd iddynt adeg eu geni, ac nid yw 6.3% wedi nodi'r manylion.

O blith ardaloedd y byrddau iechyd, gan BIP Betsi Cadwaladr, BIP Hywel Dda a BIA Powys mae'r cyfrannau isaf sy'n cofnodi'r un rhywedd a briodolwyd iddynt adeg eu geni.

Darlunnir rhywedd fesul bwrdd iechyd yn Ffigur 34 isod.


Ffigur 34 – Rhywedd fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [22]

Mae Ffigur 35 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o bobl o'r un rhywedd a briodolwyd iddynt adeg eu geni mewn pinc, a'r cyfrannau uchaf o rhywedd sy'n wahanol i'r rhywedd a briodolwyd iddynt adeg eu geni neu heb ei bennu mewn glas.

Ffigur 35 – Rhywedd yr un fath ag adeg geni fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [22]

Cyfeiriadaeth rywiol

Cyfrifir cyfeiriadaeth rywiol mewn un o 4 categori plws heb ei bennu fel a ddangosir yn Nhabl 28 isod sy'n rhoi'r canran o bobl ym mhob categori ym mhob ardal.

Tabl 28 – Cyfeiriadaeth rywiol fesul ardal awdurdod lleol

Ardal	Heterorywiol	Hoyw neu Lesbiaidd	Deurywiol	Arall	Heb ei nodi
Pob ardal (Cymru)	89.4%	1.5%	1.2%	0.3%	7.6%
BIP Aneurin Bevan	90.6%	1.4%	1.0%	0.2%	6.8%
BIP Betsi Cadwaladr	89.4%	1.3%	1.0%	0.2%	8.1%
BIP Caerdydd a'r Fro	87.9%	2.2%	2.0%	0.5%	7.4%
BIP Cwm Taf Morgannwg	90.6%	1.5%	1.0%	0.2%	6.8%
BIP Hywel Dda	88.8%	1.2%	1.3%	0.3%	8.4%
BIA Powys	89.0%	1.1%	0.9%	0.2%	8.7%
BIP Bae Abertawe	89.2%	1.6%	1.3%	0.3%	7.7%

Ffynhonnell [23]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, mae 89.4% o'r boblogaeth yn nodi eu bod yn wahanrywiol, gyda 3.0% yn cofnodi cyfeiriadaeth rywiol arall a 7.6% heb eu pennu.

O blith yr ardaloedd bwrdd iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r lefel isaf o bobl wahanrywiol ag 87.9%, gyda 4.7% yn cofnodi cyfeiriadaeth rywiol arall.

Darlunnir cyfeiriadaeth rywiol fesul ardal bwrdd iechyd yn Ffigur 36 isod.


Ffigur 36 – Cyfeiriadaeth rywiol fesul ardal bwrdd iechyd




Ffynhonnell [23]

Mae Ffigur 37 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o wahanol fathau o gyfeiriadaeth rywiol ym mhob categori, gyda'r rhai pinc yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol a'r rhai glas yn is.


Ffigur 37 – Cyfeiriadaeth rywiol fesul ardal awdurdod lleol



Deurywiol



Arall



Ffynhonnell [23]

Crefydd

Cyfrifir crefydd mewn un o 8 categori plws heb ei bennu. At ddibenion dadansoddi, mae'r rhain wedi eu grwpio'n bum categori yn Nhabl 29 isod, sy'n dangos y canran o bobl o bob crefydd ym mhob ardal.

Tabl 29 – Crefydd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Dim crefydd	Cristnog ol	Mwslem aidd	Arall	Heb ei ateb
Pob ardal (Cymru)	46.5%	43.6%	2.2%	1.4%	6.3%
BIP Aneurin Bevan	49.9%	40.9%	2.2%	1.2%	5.8%
BIP Betsi Cadwaladr	41.7%	49.8%	0.8%	1.0%	6.7%
BIP Caerdydd a'r Fro	44.3%	39.9%	7.1%	2.6%	6.2%
BIP Cwm Taf Morgannwg	54.5%	38.2%	0.6%	1.0%	5.7%
BIP Hywel Dda	43.7%	47.8%	0.6%	1.3%	6.6%
BIA Powys	42.0%	48.9%	0.3%	1.5%	7.2%
BIP Bae Abertawe	48.2%	41.6%	2.3%	1.4%	6.5%

Ffynhonnell [24]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, mae 46.5% o'r boblogaeth yn cofnodi nad ydynt yn dilyn unrhyw grefydd, mae 43.6% yn cofnodi eu bod yn Gristnogion a 3.6% yn dweud eu bod o grefydd arall.

O blith ardaloedd y byrddau iechyd, BIP Betsi Cadwaladr sy'n cofnodi'r lefel uchaf o ran crefydd, a BIP Cwm Taf Morgannwg sy'n cofnodi'r isaf.

Darlunnir crefyddau fesul ardal bwrdd iechyd yn Ffigur 38 isod.


Ffigur 38 – Crefydd fesul ardal bwrdd iechyd




Ffynhonnell [24]

Mae Ffigur 39 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o grefydd ym mhob categori, gyda'r rhai sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn pinc, a'r rhai sy'n is mewn glas.


Ffigur 39 – Crefydd fesul ardal awdurdod lleol



Mwslim



Arall



Ffynhonnell [24]

5.4. Nodweddion Ardal

Amddifadedd

Mesurir amddifadedd fesul aelwyd yn hytrach nag unigolion.

Mae yna bedwar dimensiwn o amddifadedd, a ddiffinnir fel a ganlyn:

- Addysg: ystyrir bod yna amddifadedd os nad oes gan neb ar yr aelwyd o leiaf addysg lefel 2 ac nad oes neb rhwng 16 ac 18 oed yn fyfyrwr llawn-amser.
- Cyflogaeth: ystyrir bod yna amddifadedd os oes unrhyw aelod, nad yw'n fyfyrwr llawn-amser, naill ai'n ddi-waith neu'n anabl.
- Iechyd: ystyrir bod yna amddifadedd os oes unrhyw aelod yn anabl.
- Tai: ystyrir bod yna amddifadedd os yw llety'r aelwyd naill ai'n orlawn, mewn anheddiad a rennir, neu heb unrhyw wres canolog.

Mae'r cyfrifiad yn cyfri nifer y dimensiynau o amddifadedd ar gyfer pob aelwyd, ac yn llunio cyfanswm nifer yr aelwydydd ym mhob ardal â rhwng un a phedwar o'r dimensiynau o amddifadedd.

Er mwyn hwyluso cymhariaeth ar draws ardaloedd, lluniwyd mynegai amddifadedd yn seiliedig ar nifer cyfartalog y dimensiynau o amddifadedd fesul aelwyd ym mhob ardal.

Yn Nhabl 30 isod, rhoddir y canran o aelwydydd ym mhob ardal ar gyfer pob nifer o ddimensiynau o amddifadedd.

Tabl 30 – Amddifadedd aelwydydd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	0 Dimensi ynau	1 Dimensi wn	2 Dimensi ynau	3 Dimensi ynau	4 Dimensi ynau	Mynegai
BIA Powys	48.6%	34.7%	13.8%	2.8%	0.1%	71.2
BIP Caerdydd a'r Fro	49.5%	31.8%	14.1%	4.3%	0.2%	73.9


Ardal	0 Dimensi ynau	1 Dimensi wn	2 Dimensi ynau	3 Dimensi ynau	4 Dimensi ynau	Mynegai
BIP Betsi Cadwaladr	47.5%	34.0%	14.8%	3.6%	0.2%	75.1
BIP Hywel Dda	45.9%	34.6%	15.7%	3.7%	0.1%	77.6
Pob ardal (Cymru)	45.9%	33.4%	16.0%	4.5%	0.2%	79.6
BIP Aneurin Bevan	44.2%	33.3%	17.1%	5.2%	0.2%	83.8
BIP Bae Abertawe	44.0%	33.3%	17.2%	5.4%	0.2%	84.5
BIP Cwm Taf Morgannwg	42.9%	33.0%	18.2%	5.7%	0.2%	87.4

Ffynhonnell [25]

Mae'r golofn olaf yn dangos y mynegai amddifadedd a gyfrifwyd, ac mae hyn yn dilyn cod lliw yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd. Mae'r tabl yn dilyn trefn y mynegai hwn, felly mae'r ardaloedd lleiaf difreintiedig ar y brig a'r rhai mwyaf difreintiedig ar y gwaelod. Y mynegai amddifadedd ar gyfer Cymru yw 79.6, sydd 17.8 yn is nac yn 2011.

Darlunnir y lefelau o amddifadedd yn Ffigur 40 isod.


Ffigur 40 – Amddifadedd aelwydydd fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [25]

Wrth ystyried hyn fesul ardal awdurdod lleol, mae'r mynegai amddifadedd yn amrywio o 66.4 yn Sir Fynwy i 97.8 ym Mlaenau Gwent, fel y mae Ffigur 41 isod yn ei ddangos.

Ffigur 41 – Amddifadedd aelwydydd fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [25]

Tai

Mae tai (llety preswyl) yn cynnig arwydd o gyfoeth ac amodau byw ac fe'u cyfrifir mewn 8 categori:

- Tai sengl
- Tai pâr
- Tai teras
- Mewn bloc o fflatiau pwrpasol neu denement
- Rhan o dŷ wedi ei drosi neu ei rannu, gan gynnwys fflatiau un ystafell
- Rhan o adeilad arall wedi ei drosi, er enghraifft hen ysgol, eglwys neu storfa
- Mewn adeilad masnachol, er enghraifft, mewn adeilad swyddfa, gwesty neu uwchben siop
- Carafán neu strwythur symudol neu dros dro arall.

Mae'r cyfrifiad yn cyfrif tai fesul nifer yr aelwydydd yn hytrach nag unigolion. At ddibenion dadansoddi, caiff y tri olaf eu grwpio fel 'arall' yn Nhabl 31 isod, sy'n dangos y canran o aelwydydd ym mhob ardal ac â phob math o dŷ.

Tabl 31 – Tai fesul ardal bwrdd iechyd


Ardal	Tŷ sengl	Tŷ pâr	Tŷ teras	Fflat	Tŷ a rennir	Arall
Pob ardal (Cymru)	28.5%	32.1%	26.6%	9.4%	1.8%	1.6%
BIP Aneurin Bevan	22.2%	32.6%	33.5%	9.3%	1.1%	1.2%
BIP Betsi Cadwaladr	37.9%	32.8%	18.3%	7.5%	1.7%	1.8%
BIP Caerdydd a'r Fro	17.9%	29.9%	28.7%	17.6%	4.2%	1.7%
BIP Cwm Taf Morgannwg	19.4%	31.6%	40.0%	6.8%	0.9%	1.1%
BIP Hywel Dda	43.0%	29.6%	17.7%	5.8%	1.6%	2.3%
BIA Powys	48.5%	25.5%	16.8%	5.3%	1.1%	2.7%
BIP Bae Abertawe	23.0%	37.7%	25.4%	11.0%	1.7%	1.2%

Ffynhonnell [26]

Mae tai yn adlewyrchu gwahanol fathau o ardaloedd ar draws Cymru, er enghraifft mae cyfran uwch o dai sengl mewn ardaloedd gwledig, a chyfran uwch o fflatiau a thai a rennir (llety i fyfyrwyr yn nodweddiadol) yng Nghaerdydd.

Dangosir y cyfansoddiad o ran tai ym mhob ardal yn Ffigur 42 isod.


Ffigur 42 – Tai fesul ardal bwrdd iechyd




Ffynhonnell [26]

Darlunnir dosbarthiad tai fesul ardal awdurdod lleol yn Ffigur 43 isod, lle cyfunir tai sengl a thai pâr.


Ffigur 43 – Tai fesul ardal awdurdod lleol



Fflatiau



Tai a rennir



Ffynhonnell [26]

5.5. Nodweddion Gwaith

Gweithgarwch Economaidd

Cyfrifir gweithgarwch economaidd mewn un o 19 categori, sy'n cynnwys mewn cyflogaeth, hunan-gyflogaeth, diweithdra, ac anweithgarwch economaidd.

Mae'r categorïau o gyflogaeth yn gwahaniaethu rhwng y rhai sy'n fyfyrwyr llawn-amser a'r rhai sydd ddim, a'r rhai sy'n gweithio rhan-amser neu llawn-amser. At ddibenion dadansoddi, mae'r rhain wedi eu grwpio gyda'i gilydd yn Nhabl 32 isod. Mae anweithgarwch economaidd yn ymrannu'n bump categori, sydd wedi eu grwpio fel un categori yn Nhabl 32, ond sy'n cael eu hystyried ar wahân yn Nhabl 33 isod. Mae'r rhai sydd o dan o oedran gweithio, ac felly nad ydynt yn berthnasol i'r dadansoddiad, wedi eu hepgor o'r tablau.

Tabl 32 – Gweithgarwch economaidd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Cyflogedig	Hunangyflogedig	Di-waith	Anweithredol
Pob ardal (Cymru)	37.2%	6.8%	2.5%	35.8%
BIP Aneurin Bevan	39.0%	5.7%	2.5%	34.4%
BIP Betsi Cadwaladr	37.2%	7.3%	2.4%	35.7%
BIP Caerdydd a'r Fro	38.2%	6.4%	3.1%	34.0%
BIP Cwm Taf Morgannwg	38.1%	5.5%	2.5%	35.5%
BIP Hywel Dda	33.8%	9.2%	2.2%	38.2%
BIA Powys	33.6%	12.7%	1.7%	36.4%
BIP Bae Abertawe	36.8%	5.1%	2.6%	38.1%

Ffynhonnell [27]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, o'r boblogaeth oedran gwaith, mae 46.6% yn economaidd weithgar, sy'n cynnwys 2.5% sy'n ddi-waith. Y cyfanswm sydd yn y gwaith yw 44.0% (1.4% yn uwch na 2011) ac mae 35.8% yn anweithgar yn economaidd (10.7% yn uwch na 2011).

Mae gweithgarwch ac anweithgarwch economaidd yn amrywio ar draws y gwahanol ardaloedd bwrdd iechyd, gyda chyflogaeth ar ei uchaf yn BIA Powys (46.4%) ac ar ei isaf yn BIP Bae Abertawe (42.0%). Mae anweithgarwch economaidd ar ei uchaf yn BIP Hywel Dda (38.2%) a BIP Bae Abertawe (38.1%).

Darlunnir anweithgarwch economaidd fesul bwrdd iechyd yn Ffigur 44 isod.

Ffigur 44 – Gweithgarwch economaidd fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [27]

Ar gyfer y 35.8% o'r boblogaeth a ddangosir yn economaidd anweithgar yn Nhabl 32 uchod, rhoddir dadansoddiad fesul rheswm dros yr anweithgarwch yn Nhabl 33 isod.

Tabl 33 – Anweithgarwch economaidd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Wedi ymddeol	Myfyriwr	Teulu/cartref	Salwch / anabledde tymor hir	Arall
Pob ardal (Cymru)	20.3%	4.7%	3.5%	4.9%	2.4%
BIP Aneurin Bevan	19.5%	3.3%	3.8%	5.4%	2.5%


BIP Betsi Cadwaladr	22.4%	3.8%	3.2%	4.1%	2.3%
BIP Caerdydd a'r Fro	15.8%	8.2%	3.6%	4.0%	2.4%
BIP Cwm Taf Morgannwg	19.2%	3.7%	3.7%	6.1%	2.7%
BIP Hywel Dda	23.6%	4.2%	3.4%	4.7%	2.1%
BIA Powys	24.9%	2.9%	3.0%	3.6%	2.0%
BIP Bae Abertawe	20.1%	6.0%	3.6%	5.8%	2.5%

Ffynhonnell [27]

Mae'r rhesymau dros anweithgarwch yn amrywio fesul ardal bwrdd iechyd, gydag ymddeoliad ar ei uchaf yn BIA Powys a BIP Hywel Dda. Mae'r nifer fwyaf o fyfyrwyr yn BIP Caerdydd a'r Fro, ac mae salwch/anableded tymor hir ar ei uchaf yn BIP Cwm Taf Morgannwg.

Darlunnir y patrwm yn Ffigur 45 isod.

Ffigur 45 – Anweithgarwch economaidd fesul ardal bwrdd iechyd




Ffynhonnell [27]


Mae Ffigur 46 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r lefelau uchaf o weithgarwch ac anweithgarwch economaidd.

Ffigur 46 – Gweithgarwch economaidd fesul ardal awdurdod lleol


Cyflogedig




Hunan-gyflogedig



Di-waith




Anweithgar



Ffynhonnell [27]

Dangosir dadansoddiad o anweithgarwch economaidd fesul ardal awdurdod lleol yn Ffigur 47 isod.

Ffigur 47 – Anweithgarwch economaidd fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [27]

Diwydiant

Mae yna 87 gwahanol gategori ar gyfer y diwydiant y mae pobl yn gweithio ynddo, plws amherthnasol i'r rhai nad ydynt yn gweithio. Mae hyn yn cynnwys un categori ar gyfer diwydiannau iechyd dynol, sy'n cael ei wahanu at ddibenion dadansoddi yn y fan yma, fel a ddangosir yn Nhabl 34 isod, ac mae'n hepgor y rhai nad ydynt yn gweithio.

Tabl 34 – Diwydiant fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Iechyd dynol	Arall
Pob ardal (Cymru)	4.4%	39.6%
BIP Aneurin Bevan	4.1%	40.5%


Ardal	Iechyd dynol	Arall
BIP Betsi Cadwaladr	4.4%	40.2%
BIP Caerdydd a'r Fro	5.0%	39.6%
BIP Cwm Taf Morgannwg	4.6%	39.1%
BIP Hywel Dda	4.3%	38.8%
BIA Powys	3.4%	42.9%
BIP Bae Abertawe	4.5%	37.5%

Ffynhonnell [28]

Felly, ar draws Cymru, mae 4.4% o'r boblogaeth yn gweithio mewn diwydiannau iechyd dynol, gyda'r gyfran uchaf yn BIP Caerdydd a'r Fro.

Mae Ffigur 48 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o bobl yn gweithio yn y diwydiannau iechyd dynol, gyda'r rhai sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn pinc, a'r rhai sy'n is mewn glas. Mae'r map yn seiliedig ar ymhle mae pobl yn byw yn hytrach nac ymhle maen nhw'n gweithio.

Ffigur 48 – Diwydiannau iechyd dynol fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [28]

Mae set sgiliau'r boblogaeth yn berthnasol i recriwtio, ond mae hyn yn cael ei ddadansoddi'n well fesul galwedigaeth, fel a ganlyn, yn hytrach na fesul diwydiant, am y gall pobl fynd â sgiliau o'r un alwedigaeth i un arall, ond gan aros o fewn yr un diwydiant.

Galwedigaeth

Cofnodir galwedigaeth mewn 104 gwahanol gategori, plws amherthnasol i'r rhai nad ydynt yn gweithio. Mae'r categorïau'n darparu gwahanol gyfuniadau o lefelau galwedigaeth (cyfarwyddwr, rheolwr, goruchwylydd, gweithiwr ac ati) a math o ddiwydiant (iechyd, adwerthu, trafnidiaeth, gwasanaethau proffesiynol ac ati).

At ddibenion dadansoddi, mae'r holl rolau iechyd (ar bob lefel, sy'n cynnwys gwasanaethau cymdeithasol a gofal) yn cael eu grwpio at ei gilydd, ac mae

galwedigaethau eraill yn cael eu grwpio fesul lefel/math o ddeiliadaeth fel a ddangosir yn Nhabl 35 isod.

Tabl 35 – Galwedigaeth fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Iechyd	Rheolaeth	Proffesiynol	Gwasan aethau	Gwasan aethau gweinyddol	Masnach
Pob ardal (Cymru)	2.7%	4.3%	10.3%	12.6%	4.4%	9.8%
BIP Aneurin Bevan	2.4%	4.3%	10.4%	12.8%	4.7%	10.2%
BIP Betsi Cadwaladr	2.7%	4.4%	9.4%	12.9%	4.1%	11.0%
BIP Caerdydd a'r Fro	3.5%	4.7%	14.0%	11.7%	4.6%	6.0%
BIP Cwm Taf Morgannwg	2.6%	3.8%	9.5%	13.2%	4.3%	10.4%
BIP Hywel Dda	2.7%	4.3%	8.7%	12.5%	3.9%	11.1%
BIA Powys	2.2%	5.2%	9.2%	11.6%	4.1%	14.2%
BIP Bae Abertawe	2.8%	3.6%	9.5%	12.7%	4.9%	8.5%

Ffynhonnell [29]

Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly mae 2.7% o'r boblogaeth yn gweithio mewn swyddi iechyd a gofal (0.3% yn uwch na 2011). O fewn iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r gyfran uchaf o'r boblogaeth sy'n gweithio yn y categori hwnnw (3.5%).

Rhoddir dadansoddiad o'r categorïau iechyd yn Nhabl 36 isod.

Tabl 36 – Galwedigaethau iechyd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Rheoli iechyd	Gweithiwr Iechyd Proffesiynol	Cydymaith Iechyd
Pob ardal (Cymru)	0.4%	2.2%	0.2%
BIP Aneurin Bevan	0.3%	1.9%	0.2%
BIP Betsi Cadwaladr	0.4%	2.1%	0.2%
BIP Caerdydd a'r Fro	0.3%	3.0%	0.2%
BIP Cwm Taf Morgannwg	0.3%	2.1%	0.2%

Ardal	Rheoli iechyd	Gweithiwr lechyd Proffesiynol	Cydymaith lechyd
BIP Hywel Dda	0.4%	2.1%	0.2%
BIA Powys	0.4%	1.7%	0.2%
BIP Bae Abertawe	0.4%	2.3%	0.2%

Ffynhonnell [29]


Felly, fel cyfrannau o'r boblogaeth, mae 0.4% (10,998) yn gweithio ym maes rheoli iechyd, 2.2% (68,621) yn weithwyr iechyd proffesiynol, a 0.2% (5,585) yn weithwyr cyswllt iechyd.

Dylid nodi taw categorïau eang yw'r rhain yn y cyfrifiad, maent yn cwmpasu amrywiaeth o alwedigaethau iechyd a gofal cymdeithasol ac felly nid ydynt o reidrwydd yn gweithio yn GIG Cymru. Mae'r GIG yn cyflogi llawer o bobl nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â darparu gofal iechyd, fel y rhai sy'n gweithio ym meysydd gweinyddu, ystadau a TG, a châi'r rheiny eu cyfrif mewn categorïau eraill felly.

Rhoddir cymhariaeth uniongyrchol rhwng gweithlu GIG Cymru a'r boblogaeth yn Adran 6.

Darlunnir galwedigaeth fesul ardal bwrdd iechyd yn Ffigur 49 isod.


Ffigur 49 – Galwedigaeth fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [29]

Mae Ffigur 50 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o alwedigaethau iechyd, gyda'r rhai sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn pinc, a'r rhai sy'n is mewn glas. Mae'r mapiau'n seiliedig ar ymhle mae pobl yn byw yn hytrach na ble maen nhw'n gweithio.

Ffigur 50 – Galwedigaethau iechyd fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [29]

Dosbarthiad Cymdeithasol Economaidd

Mae dosbarthiad cymdeithasol economaidd yn cynnwys 15 lefel sydd wedi eu grwpio yn 9 categori yn y cyfrifiad:

- L1, L2 ac L3: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol uwch
- L4, L5 ac L6: Galwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol is
- L7: Galwedigaethau canolradd
- L8 ac L9: Cyflogwyr bychain a gweithwyr ar eu cyfrif eu hunain

- L10 ac L11: Galwedigaethau goruchwylio a thechnegol is
- L12: Galwedigaethau lled-arferol
- L13: Galwedigaethau arferol
- L14.1 ac L14.2: Erioed wedi gweithio a di-waith tymor hir
- L15: Myfyrwyr llawn-amser.

At ddibenion dadansoddi, mae'r rhain wedi eu grwpio ymhellach yn chwe lefel fel a nodir yn Nhabl 37, sy'n dangos y cyfran o'r boblogaeth sydd ym mhob categori ym mhob ardal bwrdd iechyd.

Am fod y dosbarthiad yn cyfateb i gyflogaeth, mae'r rhai sydd o dan oedran cyflogaeth wedi eu hepgor o'r uchod ac felly wedi eu hepgor o'r tabl.

Tabl 37 – Dosbarthiad cymdeithasol economaidd fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Lefel 1, 2, 3	Lefel 4, 5, 6	Lefel 7, 8, 9, 10, 11	Lefel 12, 13	Lefel 14	Lefel 15
Pob ardal (Cymru)	8.4%	16.0%	23.0%	21.7%	7.0%	6.3%
BIP Aneurin Bevan	8.2%	15.5%	22.2%	23.6%	7.6%	4.5%
BIP Betsi Cadwaladr	8.0%	16.5%	24.2%	22.5%	6.4%	5.2%
BIP Caerdydd a'r Fro	11.7%	16.8%	19.4%	15.9%	6.9%	10.9%
BIP Cwm Taf Morgannwg	6.9%	15.2%	22.3%	24.2%	8.0%	5.1%
BIP Hywel Dda	7.5%	16.3%	26.1%	21.5%	6.4%	5.6%
BIA Powys	8.4%	17.1%	29.6%	20.5%	5.3%	3.6%
BIP Bae Abertawe	7.7%	15.2%	21.8%	22.1%	7.7%	8.1%

Ffynhonnell [30]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, mae gan 24.4% o'r boblogaeth Lefelau 1-6 am alwedigaethau rheoli, gweinyddol a phroffesiynol, sy'n cwmpasu llawer o rolau yn y GIG.

O ardaloedd y byrddau iechyd, gan BIP Caerdydd a'r Fro mae'r cyfrannau uchaf yn Lefelau 1-6 gyda 28.5%, a chan BIP Cwm Taf Morgannwg mae'r gyfran uchaf yn Lefel 14, gydag 8.0% sydd erioed wedi gweithio neu sy'n ddi-waith.

Darlunnir dosbarthiad cymdeithasol economaidd fesul ardal bwrdd iechyd yn Ffigur 51 isod.


Ffigur 51 – Dosbarthiad cymdeithasol economaidd fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [30]

Mae Ffigur 52 isod yn dangos yr ardaloedd awdurdod lleol â'r cyfrannau uchaf o Lefelau 1-6 a Lefel 14, gyda'r rhai sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol mewn pinc, a'r rhai sy'n is mewn glas.

Ffigur 52 – Dosbarthiad cymdeithasol economaidd fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [30]

Oriau Gwaith

Rhennir oriau gwaith yn bedwar categori, plws amherthnasol i'r rhai nad ydynt yn gweithio:

- Rhan-amser: gweithio 15 awr neu lai
- Rhan-amser: gweithio 16 i 30 awr
- Llawn-amser: gweithio 31 i 48 awr
- Llawn-amser: gweithio 49 awr neu ragor.

Nodir y canran o bobl ym mhob ardal â phob categori o oriau gwaith yn Nhabl 38 isod.

Tabl 38 – Oriau gwaith fesul ardal bwrdd iechyd


Ardal	Rhan amser: 0-15 awr	Rhan amser: 16-30 awr	Amser llawn: 31-48 awr	Amser llawn: 49+ awr
Pob ardal (Cymru)	4.0%	9.2%	26.3%	4.5%
BIP Aneurin Bevan	3.5%	8.9%	28.1%	4.2%
BIP Betsi Cadwaladr	4.0%	9.4%	26.4%	4.8%
BIP Caerdydd a'r Fro	4.6%	9.1%	26.9%	4.0%
BIP Cwm Taf Morgannwg	3.3%	8.8%	27.6%	3.9%
BIP Hywel Dda	4.4%	9.6%	23.3%	5.8%
BIA Powys	4.8%	10.1%	23.8%	7.6%
BIP Bae Abertawe	3.9%	9.2%	25.3%	3.6%

Ffynhonnell [31]

Felly, ar draws Cymru, mae 13.2% yn gweithio oriau rhan-amser (0.3% yn is na 2011) a 30.9% yn gweithio llawn-amser (0.2% yn is na 2011), gydag amrywiaeth yn y patrwm ar draws ardaloedd bwrdd iechyd.

Darlunnir yr oriau gwaith yn Ffigur 53 isod.


Ffigur 53 – Oriau gwaith fesul ardal bwrdd iechyd



Ffynhonnell [31]

Trwy grwpio pobl sy'n gweithio yn rhai rhan-amser a llawn-amser fesul ardal awdurdod lleol, dangosir yr ardaloedd â'r lefelau uchaf o weithwyr ym mhob categori (gyda chod lliw sy'n berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol) yn Ffigur 54 isod.

Ffigur 54 – Oriau gwaith fesul ardal awdurdod lleol



Ffynhonnell [31]

Pellter Teithio i'r Gwaith

Mae'r cyfrifiad yn adrodd ar bellter teithio i'r gwaith mewn naw categori, plws amherthnasol i'r rhai nad ydynt yn gweithio:

Gweithio o gartref yn bennaf

- Llai na 2km
- 2km i lai na 5km
- 5km i lai na 10km
- 10km i lai na 20km
- 20km i lai na 30km
- 30km i lai na 40km
- 40km o lai na 60km
- 60km neu ragor
- Yn gweithio'n bennaf mewn lleoliad alltraeth, mewn lle amhenodol neu y tu allan i'r DU.

At ddibenion dadansoddi, mae'r rhain wedi eu grwpio yn Nhabl 39 er mwyn dangos y canran o bobl ym mhob ardal bwrdd iechyd sy'n perthyn i bob grŵp.

Tabl 39 – Pellter teithio i'r gwaith fesul ardal bwrdd iechyd

Ardal	Yn gweithio gartref	0-5 cilom edr	5-10 cilom edr	10-30 cilom edr	30+ cilom edr	Gweithio i ffwrdd
Pob ardal (Cymru)	11.3%	10.4%	5.6%	8.0%	2.6%	6.1%
BIP Aneurin Bevan	11.3%	10.5%	5.6%	9.1%	2.2%	5.9%
BIP Betsi Cadwaladr	9.7%	10.5%	6.2%	8.7%	3.2%	6.3%
BIP Caerdydd a'r Fro	15.8%	11.8%	5.6%	4.6%	1.6%	5.2%
BIP Cwm Taf Morgannwg	9.4%	9.6%	5.6%	10.1%	2.3%	6.6%
BIP Hywel Dda	10.7%	9.0%	4.0%	9.1%	3.3%	6.8%
BIA Powys	14.0%	8.4%	3.0%	7.8%	5.5%	7.6%
BIP Bae Abertawe	10.0%	11.0%	7.1%	6.3%	2.0%	5.5%

Ffynhonnell [32]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly ar draws Cymru, mae 11.3% yn gweithio gartref (6.6% yn uwch na 2011) ac mae 16.0% yn teithio llai na 10km, gyda chwta 2.6% yn teithio mwy na 30km, ond mae yna amrywiadau sylweddol ar draws ardaloedd y gwahanol fyrddau iechyd.

Mae ardal BIP Caerdydd a'r Fro wedi ei ddominyddu gan bobl sy'n gweithio gartref neu sy'n teithio'n lleol, a all fod oherwydd natur ddinesig yr ardal. Ar y llaw arall, mae ardal BIA Powys yn fwy gwledig, ac mae yna raniad o bobl yn gweithio gartref neu'n teithio pellteroedd mwy sylweddol, neu'n gweithio i ffwrdd.

Dangosir y pellteroedd teithio i'r gwaith yn Ffigur 55 isod.


Ffigur 55 – Pellter teithio i'r gwaith fesul ardal bwrdd iechyd




Ffynhonnell [32]

Wrth grwpio pellteroedd teithio pobl i'r gwaith fesul ardal awdurdod lleol, dangosir yr ardaloedd â'r lefelau uchaf ym mhob categori (gyda chod lliw yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol) yn Ffigur 56 isod.


Ffigur 56 – Pellter teithio i'r gwaith fesul ardal awdurdod lleol




Teithio 5-10 km




Teithio 10-30 km



Teithio 30+ km



Gweithio i ffwrdd



Ffynhonnell [32]

Dull o Deithio i'r Gwaith

Mae'r dull y mae pobl yn ei ddefnyddio i deithio i'r gwaith yn ymrannu'n 11 categori plws y rhai nad ydynt yn y gwaith:

- Yn gweithio gartref neu o gartref yn bennaf
- Trên danddaear, metro, rheilffordd ysgafn, tram
- Trên
- Bws, bws mini neu goets
- Tacsï
- Beic modur, sgwter neu moped
- Gyrru car neu fan
- Teithiwr mewn car neu fan
- Beic
- Ar droed

- Dull arall o deithio i'r gwaith

At ddibenion dadansoddi, mae'r rhain wedi eu grwpio yn Nhabl 40 sy'n dangos y canran o bobl yn ardal pob bwrdd iechyd sydd ym mhob grŵp, ac eithrio'r rhai sy'n gweithio gartref.

Tabl 40 – Dull o deithio i'r gwaith fesul ardal bwrdd iechyd

Area	Trafnidiaeth gyhoeddus	Cludiant preifat	Cerdded/beicio	Tacsi	Arall
Ardal	1.4%	27.1%	3.6%	0.2%	0.4%
Pob ardal (Cymru)	1.3%	28.3%	3.0%	0.3%	0.3%
BIP Aneurin Bevan	1.3%	29.2%	3.8%	0.2%	0.4%
BIP Betsi Cadwaladr	2.4%	20.8%	4.9%	0.3%	0.4%
BIP Caerdydd a'r Fro	1.7%	29.3%	2.7%	0.2%	0.3%
BIP Cwm Taf Morgannwg	0.6%	27.7%	3.5%	0.2%	0.4%
BIP Hywel Dda	0.3%	26.8%	4.7%	0.1%	0.4%
BIA Powys	1.3%	26.9%	3.1%	0.3%	0.4%

Ffynhonnell [33]


Mae cod lliw i'r colofnau yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol ym mhob colofn, gyda phinc yn uwch na'r cyfartaledd a glas yn is na'r cyfartaledd.

Felly, ar draws Cymru, mae 27.1% yn defnyddio cludiant preifat i deithio i'r gwaith ac mae cwta 1.4% yn defnyddio cludiant cyhoeddus, gyda 3.6% yn beicio neu'n cerdded. Mae yna ryw gydberthynas rhwng dulliau o deithio, pellter teithio a math o ardal, fel ardal ddinesig BIP Caerdydd a'r Fro lle mae'r defnydd uchaf o gludiant cyhoeddus a cherdded/beicio, ac yn gyfatebol, y defnydd isaf o gludiant preifat, o gymharu ag ardaloedd mwy gwledig BIA Powys a BIP Hywel Dda, lle mae'r defnydd o gludiant cyhoeddus ar ei isaf.

Er taw gan BIA Powys mae'r gyfran uchaf o bobl sy'n teithio'r pellaf i'r gwaith (30+ km) fel a nodir yn Nhabl 39 uchod, mae hi ond ychydig bach y tu ôl i BIP Caerdydd a'r Fro am gerdded a beicio.

Darlunnir y dulliau o deithio i'r gwaith yn Ffigur 57 isod.


Ffigur 57 – Dull o deithio i'r gwaith fesul ardal bwrdd iechyd




Ffynhonnell [33]

Os grwpiwn ni ddulliau pobl sy'n gweithio o deithio i'r gwaith fesul ardal awdurdod lleol, yna dangosir yr ardaloedd â'r lefelau uchaf ym mhob categori (â chod lliw yn berthynol i'r cyfartaledd cenedlaethol) yn Ffigur 58 isod.


Ffigur 58 – Dull o deithio i'r gwaith fesul ardal awdurdod lleol



Cerdded/beicio



Arall



Ffynhonnell [33]

6. Cymhariaeth â Gweithlu GIG Cymru

6.1. Cyfansymiau'r Gweithlu

Mae Llywodraeth Cymru'n adrodd ar gyfansymiau staff y GIG trwy ei wefan StatsCymru [34]. Yn Nhabl 41 isod, dangosir nifer y staff cyfateb ag amser llawn, fesul grŵp staff, ar gyfer 2011 a 2021, sef blynyddoedd y cyfrifiad, ynghyd â'r newidiadau.

Mae'r data ar gyfer 2011 ond ar gael ar gyfer Medi 2011, a chyflawnwyd y cyfrifiad ym mis Mawrth 2011. Mae'r data ar gyfer 2021 ar gael ar gyfer mis y cyfrifiad, sef Mawrth 2021, ond mae'r tabl isod yn darparu data ar gyfer Medi 2021 er mwyn dangos y newid dros y deng mlynedd, yn yr un modd â'r cyfrifiad.

Tabl 41 – Gweithlu cyfateb ag amser llawn o 2011 i 2021

Grŵp Staff	Medi 2021	Medi 2011	Newid	% Newid
Holl staff	88,638	71,828	+16,810	+23.4%
Staff meddygol a deintyddol	7,505	5,851	+1,654	+28.3%
Nyrsio, bydwreigiaeth ac ymwelwyr iechyd	35,688	31,041	+4,647	+15.0%
Staff gweinyddol ac ystadau	21,583	15,192	+6,391	+42.1%
Staff gwyddonol therapiwtig a thechnegol arall	15,063	11,472	+3,592	+31.3%
Cynorthwywyr gofal iechyd a staff ategol eraill	5,906	6,242	-336	-5.4%
Staff ambiwlans	2,784	1,873	+911	+48.7%
Staff anfeddygol arall	109	158	-49	-30.8%


Ffynhonnell [34]

Os cymharwn ni'r newid yn y boblogaeth o'r cyfrifiad yn Nhabl 1 â'r newid yn y gweithlu dros gyfnod cymharol yn Nhabl 41, fe welwn ni fod y boblogaeth wedi tyfu 1.4%, ond bod gweithlu GIG Cymru wedi tyfu 23.4%. Mae'r newidiadau dros y deng mlynedd yn amrywio fesul grŵp staff, ond yn y rhan fwyaf o grwpiau roedd y cynnydd yn sylweddol fwy na'r twf yn y boblogaeth.

Wrth ystyried newidiadau ym maint y gweithlu, mae angen i ni ystyried newidiadau ym maint y boblogaeth isorweddol, a gallwn wneud hyn trwy ystyried nifer y staff fesul poblogaeth o 10,000. Yma fe ffeindiwn ni fod nifer y staff fesul poblogaeth o 10,000 wedi cynyddu o 234.5 yn 2011 i 285.2 yn 2021, sef cynnydd o 21.7%.

Yn Ffigur 59 isod, rydyn ni'n dangos y newid canrannol yn y gweithlu a'r boblogaeth rhwng 2011 a 2021.

Ffigur 59 – Newid yn y gweithlu a'r boblogaeth rhwng 2011 a 2021




Ffynhonnell [5, 3, 4, 34]

Mae hyn yn dangos bod y gweithlu wedi tyfu'n sylweddol yn berthynol â'r boblogaeth o 2014 ymlaen.

6.2. Oedrannau'r Gweithlu

Yn Ffigur 60 isod, rydyn ni'n cymharu proffil oedran y gweithlu yn seiliedig ar ddata o Ragfyr 2020 [35], toc cyn cyfrifiad 2021, gyda phroffil oedran cyfatebol o'r boblogaeth ar sail cyfrifiad 2021. Y canrannau yw'r cyfrannau o'r gweithlu a'r boblogaeth sydd rhwng 20 a 64 oed. Yn amlwg, mae rhai pobl yn dechrau gweithio cyn troi'n 20 oed ac eraill yn parhau i weithio y tu hwnt i 65 oed, ond mae hyn yn caniatáu i ni gymharu prif gwmpas yr oedrannau gwaith yn seiliedig ar gyfrannau'r oedran yna.

Ffigur 60 – Proffil oedran gweithio'r gweithlu a'r boblogaeth



Ffynhonnell [3, 35]


Mae yna ryw faint o debygrwydd yn y ddwy linell am fod y ddwy yn dangos pwynt brig ar y dde ar gyfer y boblogaeth hŷn, pwynt brigo llai ar y chwith ar gyfer y boblogaeth iau, a phant yn y canol. Yn y naill achos a'r llall, mae hyn yn dangos bod cyfran uwch o'r boblogaeth oedran gwaith (20-64 oed) yn hŷn ac yn nesáu at ymddeol.

Mae'r gyfran o'r gweithlu sy'n 20-24 oed yn is na'r boblogaeth am y byddai llawer ohonynt yn dal i hyfforddi, ac yn y cwrpas oedran 60-64 oed lle byddai llawer wedi ymddeol.

O'r gweithlu 20-64 oed, mae 34.1% dros 50 oed o gymharu â 36.3% o'r boblogaeth ehangach.

Os ystyriwn ni'n gyfran o'r gweithlu â'r boblogaeth gyfan, ym mhob band oedran gweithio, yna dangosir y canlyniad yn Ffigur 61 isod.

Ffigur 61 – Y gyfran o'r gweithlu i'r boblogaeth



Ffynhonnell [3, 35]

Felly o 25-59 oed ymlaen mae 5% neu ragor o'r boblogaeth yn gweithio dros GIG Cymru, ac mae hynny'n cynyddu i 6.1% yn y band 45-49 oed.

6.3. Nodweddion Eraill

Mae StatsCymru yn rhoi dadansoddiad o staff GIG Cymru ar sail amryw o nodweddion [36]. Rhoddir crynodeb o'r rhain yn Nhabl 42. Dylid nodi bod data'r gweithlu yn seiliedig ar fis Medi 2022, sydd 18 mis ar ôl cyfrifiad 2021, ac felly mae'r gymhariaeth â'r boblogaeth at ddibenion dangosol yn unig.

Tabl 42 – Nodweddion y gweithlu o gymharu â'r boblogaeth

Nodwedd	Categori	Gweithlu	Poblogaeth	Gwahaniaeth
Rhyw	Gwryw	23.5%	48.9%	-25.4%
	Benyw	76.5%	51.1%	+25.4%
Cenedligrwydd	DU	78.9%	95.8%	-16.9%
	UE/AEE	2.0%	2.2%	-0.2%
	Oddi allan i'r UE/AEE	4.4%	2.0%	+2.4%
	Anhysbys	14.7%	0.0%	+14.7%
Ethnigrwydd	Gwyn	80.3%	93.8%	-13.5%
	Asiaidd	4.0%	2.9%	+1.1%
	Du	1.1%	0.9%	+0.2%
	Cymysg	0.9%	1.6%	-0.7%

Nodwedd	Categori	Gweithlu	Poblogaeth	Gwahaniaeth
	Arall	1.3%	0.9%	+0.4%
	Anhysbys	12.4%	0.0%	+12.4%
Anabledd	Ddim yn anabl	71.1%	78.4%	-7.3%
	Anabl	3.7%	21.6%	-17.9%
	Anhysbys	25.2%	0.0%	+25.2%

Ffynhonnell [36, 3, 10, 11, 21]

Felly, mae gweithlu'r GIG yn fwy llwythog â benywod o lawer na'r boblogaeth ar led; yn fwy amrywiol o ran cenedligrwydd ac ethnigrwydd na'r boblogaeth ar y cyfan; ac mae'n debyg bod ganddo lefel is o lawer o anabledd na'r boblogaeth, ond mae statws chwarter o'r gweithlu'n anhysbys.

7. Gwaith Ymchwil at y Dyfodol

Roedd yr adroddiad cychwynnol ar gyfrifiad 2021 [2] yn seiliedig ar y data cyfyngedig iawn (wedi ei grynhoi, gan gynnwys rhyw, awdurdod lleol, a 5 band oedran) a ryddhawyd gan yr ONS ar 28 Mehefin 2022. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar y data mwy manwl a ryddhawyd gan ONS yn sgil hynny, gan gynnwys data heb ei grynhoi ar sail un oedran, a llawer o wahanol setiau data sy'n cwmpasu amryw o nodweddion.

Heblaw am gyfrifiadau'r boblogaeth yn seiliedig ar ryw, ardal ac oedran, mae'r rhan fwyaf o'r gwaith dadansoddi'n seiliedig ar un fath o ddata, fel cenedligrwydd neu ethnigrwydd. Mae'r ONS wrthi'n datblygu gallu pellach i holi data'r cyfrifiad, gan gynnwys y gallu i ddadansoddi data fesul amryw o baramedrau, fel ethnigrwydd fesul oedran. Felly byddai dadansoddiad pellach yn mynd i fwy o fanylder lle bo angen.

Yn Adran 3.1, esboniwyd bod yr amcangyfrifon o'r boblogaeth rhwng cyfrifiadau 2011 a 2021 yn cael eu hadolygu, felly er ein bod ni'n gwybod sut newidiodd y data o un cyfrifiad i'r llall, mae'r tueddiad yn y cyfamser yn agored i'w addasu, a disgwylir cael yr amcangyfrifon diwygiedig yn haf 2023. Yn yr un modd, mae amcanestyniadau o'r boblogaeth yn cael eu hadolygu yn seiliedig ar gyfrifiad 2021, a disgwylir amcanestyniadau wedi eu diweddarau yn Rhagfyr 2023. Ar ôl cyhoeddi'r addasiadau, bydd modd diweddarau'r adroddiad hwn i adlewyrchu'r newidiadau.

Yn Adran 6, darparwyd cymhariaeth rhwng y gweithlu a'r boblogaeth yn seiliedig ar ddata am y gweithlu a oedd ar gael yn hwylus. Gellid defnyddio data pellach am y gweithlu i ddarparu cymhariaeth fwy manwl.

8. Cyfeiriadau

- [1] ONS [Swyddfa Ystadegau Gwladol], "Population and household estimates, Wales: Census 2021 [Amcangyfrifon o'r boblogaeth ac aelwydydd, Cymru: Cyfrifiad 2021]," 28 Mehefin 2022. [Ar lein]. Ar gael: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/populationandhouseholdestimateswalescensus2021>. [Cyrchwyd 6 Gorffennaf 2022].
- [2] Health Education and Improvement Wales [Addysg a Gwella Iechyd Cymru], "Focus on Census 2021 for Workforce Planners [Ffocws ar Gyfrifiad 2021 ar gyfer Cynllunwyr y Gweithlu]," Heb ei gyhoeddi, 2022.
- [3] ONS [Swyddfa Ystadegau Gwladol], "Population and household estimates, England and Wales: Census 2021, unrounded data [Amcangyfrifon o'r boblogaeth ac aelwydydd, Cymru a Lloegr: Cyfrifiad 2021, data heb ei grynhoi]," 2 Tachwedd 2022. [Ar lein]. Ar gael: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimatesenglandandwales/census2021unroundeddata>. [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].
- [4] ONS [Swyddfa Ystadegau Gwladol], "2011 Census: Population estimates by single year of age and sex for local authorities in the United Kingdom [Cyfrifiad 2011: Amcangyfrifon o'r boblogaeth fesul blwyddyn oedran sengl a rhyw ar gyfer awdurdodau lleol yn y Deyrnas Unedig]," 31 Gorffennaf 2013. [Ar lein]. Ar gael: <https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/datasets/2011censuspopulationestimatesbysingleyearofageandsexforlocalauthoritiesintheunitedkingdom>. [Cyrchwyd 2 Tachwedd 2022].
